OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2026 Rhif 111

Rheoliadau Cyllido Ysgolion, Datganiadau Cyllideb a Datganiadau Alldro (Rhif 2) (Cymru) 2026

Gwnaed	*29 Mehefin 2026*
Yn dod i rym	*31 Ionawr 2027*

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

2026 No. 111

The School Funding, Budget Statements and Outturn Statements (No. 2) (Wales) Regulations 2026

Made	*29 June 2026*
Coming into force	*31 January 2027*

£24.40

williams lea | tso
An RRD Company

Cyhoeddwyd gan TSO (Y Llyfrfa), cwmni Williams Lea, ac ar gael o:

Arlein
www.tsoshop.co.uk

Post, Ffôn ac E-bost
TSO
Blwch Post 29, Norwich, NR3 1GN
Archebionf ffôn/ Ymholiadau cyffredinol 0333 202 5070
E-bost: customer.services@tso.co.uk
Ffôn Testun: 0333 202 5077

Published by TSO (The Stationery Office), part of Williams Lea, and available from:

Online
www.tsoshop.co.uk

Mail, Telephone & E-mail
TSO
PO Box 29, Norwich, NR3 1GN
Telephone orders/General enquiries: 0333 202 5070
E-mail: customer.services@tso.co.uk
Textphone: 0333 202 5077

ISBN 978-0-34-839882-3

9 780348 398823

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L C Y M R U

2026 Rhif 111

ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Cyllido Ysgolion, Datganiadau Cyllideb a Datganiadau Alldro (Rhif 2) (Cymru) 2026

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae Rheoliadau Cyllido Ysgolion, Datganiadau Cyllideb a Datganiadau Alldro (Cymru) 2026 ("Rheoliadau 2026") yn dirymu ac yn disodli Rheoliadau Addysg (Datganiadau Cyllideb) (Cymru) 2002, Rheoliadau Addysg (Datganiadau Alldro) (Cymru) 2003 a Rheoliadau Cyllido Ysgolion (Cymru) 2010 ("Rheoliadau 2010") mewn perthynas â blynyddoedd ariannol sy'n cychwyn ar neu ar ôl 1 Ebrill 2027. Mae Rheoliadau 2026 yn gwneud darpariaeth ar gyfer cyllido ysgolion a gynhelir yng Nghymru ar gyfer y blynyddoedd ariannol hynny.

Mae'r Rheoliadau hyn yn dirymu ac yn ail-wneud Rheoliadau 2026 cyn i Reoliadau 2026 ddod i rym ar 1 Chwefror 2027, gyda'r gwallau yn Rheoliadau 2026 wedi eu cywiro fel a ganlyn—

(a) mae'r cyfeiriad at adrannau 24(3) a (4) a 210(7) o Ddeddf Addysg 2002 yn y rhaglith i Reoliadau 2026 yn anghywir ac mae'r Rheoliadau hyn yn cyfeirio at adrannau 13, 14 a 32(2) o Fesur Addysg (Cymru) 2011 yn lle hynny,

(b) mae'r cyfeiriad at "y disgybl" yn rheoliad 21(6)(b) o Reoliadau 2026 yn anghywir ac mae'r Rheoliadau hyn yn cyfeirio at "disgyblion" yn lle hynny; yn y testun Saesneg mae'r cyfeiriad at "pupil's" yn rheoliad 21(7)(a) o Reoliadau 2026 yn anghywir ac mae'r Rheoliadau hyn yn cyfeirio at "pupils" yn lle hynny, ac

(c) yn y testun Cymraeg ym mharagraff 31 o Atodlen 2 i Reoliadau 2026 mae'r cyfeiriad at "ysgolion a gynhelir" yn anghywir ac mae'r Rheoliadau hyn yn cyfeirio at "ysgolion" yn lle hynny.

Nid yw'r Rheoliadau hyn yn ail-wneud rheoliad 2(2) o Reoliadau 2026. Gwnaeth rheoliad 2(2) o Reoliadau 2026 ddiwygiad canlyniadol i Reoliadau 2010, a daeth i rym ar 1 Ebrill 2026.

Mae Rhan 1 yn cynnwys y darpariaethau rhagarweiniol a'r darpariaethau dirymu a dehongli.

Mae Rhan 2 yn ymdrin â'r gyllideb addysg nad yw ar gyfer ysgolion, y gyllideb ysgolion a'r gyllideb ysgolion unigol.

Mae rheoliad 4 ac Atodlen 2 yn nodi'r gwariant sy'n ffurfio'r gyllideb addysg nad yw ar gyfer ysgolion. Mae'r gyllideb hon yn ymwneud â'r gwariant ar swyddogaethau awdurdod lleol y mae rhaid i'r awdurdod lleol ei gadw'n ganolog.

Mae rheoliad 5 yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod lleol wneud penderfyniad cychwynnol ynghylch y gyllideb ysgolion ar neu cyn 14 Chwefror yn union cyn cyfnod cyllido. Diffinnir "funding period" ("*cyfnod cyllido*") yn adran 45(1B) o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 ("Deddf 1998") i olygu blwyddyn ariannol neu unrhyw gyfnod arall a ragnodir. Mae'r Rheoliadau hyn yn diffinio "cyfnod cyllido" i olygu blwyddyn ariannol o fewn yr ystyr a roddir i "financial year" yn adran 579(1) o Ddeddf Addysg 1996.

Mae rheoliad 6 yn diffinio'r gyllideb ysgolion. Mae'r gyllideb ysgolion yn ymwneud â'r gwariant sydd wedi ei anelu at gefnogi ysgolion.

Mae rheoliad 7 yn ei gwneud yn ofynnol i'r gyllideb ysgolion unigol gael ei phenderfynu ar neu cyn 14 Chwefror yn union cyn cyfnod cyllido. Blwyddyn ariannol yw cyfnod cyllido. Diffinnir y gyllideb ysgolion unigol yn rheoliad 7 ac yn Atodlen 3. Ffurfir y gyllideb ysgolion unigol drwy ddidynnu unrhyw un neu ragor o'r eitemau o wariant a nodir yn Atodlen 3, neu bob un ohonynt, o'r gyllideb ysgolion. Mater i'r awdurdod lleol yw penderfynu pa eitemau o wariant yn Atodlen 3 sydd i'w didynnu o'r gyllideb ysgolion. Bydd beth bynnag sydd ar ôl yn y gyllideb ysgolion ar ôl yr ymarfer hwnnw yn ffurfio'r gyllideb ysgolion unigol.

Mater i'r awdurdod lleol yw penderfynu beth i'w wneud â'r eitemau o wariant a ddidynnir o'r gyllideb ysgolion ac nad ydynt yn cael eu dyrannu i'w gyllideb ysgolion unigol. Caiff awdurdod lleol benderfynu cadw'r eitemau hynny o wariant yn ganolog fel mai'r awdurdod lleol fydd yn gyfrifol am dalu costau'r eitemau hynny. Fel arall, caiff awdurdod lleol benderfynu dyrannu'r eitemau hynny o wariant i ysgolion a gynhelir. Yn yr achos hwnnw, bydd yr awdurdod lleol hefyd yn dyrannu'r cyllid ar gyfer yr eitemau hynny o wariant i ysgolion a gynhelir a fydd wedyn yn gyfrifol am dalu costau'r eitemau hynny.

Mae Rhan 3 yn ymdrin â chyfrannau ysgolion o'r gyllideb. Mae rheoliad 8 yn ei gwneud yn ofynnol i'r gyllideb ysgolion unigol gael ei dyrannu ar ffurf cyfrannau o'r gyllideb i ysgolion a gynhelir. Mae hyn yn golygu bod rhaid rhannu'r gyllideb ysgolion unigol yn gyfrannau ysgolion o'r gyllideb, gyda phob ysgol a gynhelir yn cael cyfran o'r gyllideb. Mae rheoliad 9 yn ei gwneud yn ofynnol i benderfyniad cychwynnol ynghylch swm cyfran ysgol o'r gyllideb gael ei wneud ar neu cyn 31 Mawrth cyn cyfnod cyllido. Mae rheoliad 9 hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod lleol hysbysu cyrff llywodraethu ysgolion am swm eu cyfrannau o'r gyllideb ynghyd â gwybodaeth ynghylch sut y cyfrifwyd y gyfran o'r gyllideb ac amcangyfrifon o'r cyfrannau o'r gyllideb ar gyfer y ddau gyfnod cyllido dilynol.

Mae rheoliad 10 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol benderfynu fformiwla ar gyfer y cyfrannau o'r gyllideb. Mae rheoliad 11 yn ei gwneud yn ofynnol ymgynghori ar unrhyw newidiadau a wneir i'r fformiwla ers y cyfnod cyllido blaenorol. Mae rheoliad 12 yn nodi sut y mae fformiwla awdurdod lleol i gael ei chyhoeddi.

Mae rheoliad 13 yn gwneud darpariaeth ar gyfer cyllideb ddirprwyedig ysgol newydd.

Mae rheoliadau 14 i 26 yn nodi'r ffactorau a'r meini prawf sydd i'w hystyried wrth benderfynu cyfrannau ysgolion o'r gyllideb. Mae rheoliad 24 yn gwneud darpariaeth newydd sy'n caniatáu i awdurdod lleol ddyrannu un gyfran o'r gyllideb i gorff llywodraethu'r ffederasiwn a thrin yr ysgolion fel un ysgol at y diben hwnnw.

Mae rheoliad 27 yn caniatáu i awdurdod lleol ailbenderfynu cyfran ysgol o'r gyllideb er mwyn cywiro gwallau, ac mae rheoliad 28 yn caniatáu i Weinidogion Cymru gymeradwyo trefniadau eraill i benderfynu cyfrannau ysgolion o'r gyllideb.

Mae Rhan 4 yn ymdrin â chynlluniau ariannol awdurdodau lleol. Mae rheoliad 29 ac Atodlen 4 yn pennu'r materion y mae rhaid ymdrin â hwy mewn cynlluniau ariannol.

Mae rheoliad 30 yn nodi sut y mae cynlluniau ariannol diwygiedig i gael eu cyhoeddi ac mae rheoliad 31 yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw ddiwygiadau gael eu cymeradwyo gan y fforwm ysgolion neu gan Weinidogion Cymru.

Mae Rhan 5 yn ymdrin â'r wybodaeth ynghylch gwariant awdurdod lleol ar addysg y mae rhaid ei chynnwys yn y datganiad o wariant cynlluniedig ("datganiad cyllideb") y mae'n ofynnol, o dan adran 52(1) o Ddeddf 1998, i bob awdurdod lleol ei lunio cyn dechrau pob cyfnod cyllido.

Yn adrannau 45, 45A, 47 ac 48 o Ddeddf 1998 defnyddir y term "funding period" ("*cyfnod cyllido*") yn hytrach na'r term "financial year" ("*blwyddyn ariannol*"). Mae adran 45 o Ddeddf 1998 yn diffinio "funding period" i olygu blwyddyn ariannol neu unrhyw gyfnod arall a ragnodir. Fodd bynnag, yn adran 52(1) o Ddeddf 1998 defnyddir y term "financial year" ("*blwyddyn ariannol*"). Er cysondeb, mae'r Rheoliadau hyn yn defnyddio'r term "cyfnod cyllido" drwyddynt draw. Mae'r Rheoliadau hyn yn diffinio "cyfnod cyllido" i olygu blwyddyn ariannol o fewn yr ystyr a roddir i "financial year" yn adran 579(1) o Ddeddf Addysg 1996.

Mae rheoliad 32 yn ei gwneud yn ofynnol bod rhaid i bob datganiad cyllideb gael ei lunio mewn dwy ran fel a ganlyn—

(a) Rhan 1, ar y ffurf a ragnodir yn Atodlen 5 a chan gynnwys manylion gwariant cynlluniedig ar gyfer ysgolion a gynhelir unigol a ragnodir yn yr Atodlen honno, a

(b) Rhan 2, ar y ffurf a ragnodir yn Atodlen 6 a chan gynnwys yr wybodaeth o ran y fethodoleg ar gyfer penderfynu cyfrannau ysgolion o'r gyllideb ar gyfer ysgolion a gynhelir a ragnodir yn yr Atodlen honno.

Mae rheoliadau 33 a 34 yn nodi sut y mae datganiad cyllideb awdurdod lleol i gael ei gyhoeddi.

Mae Rhan 6 yn ymdrin â'r wybodaeth ynghylch gwariant awdurdodau lleol ar addysg y mae rhaid ei chynnwys mewn datganiad ("datganiad alldro"). Mae'n ofynnol gan adran 52(2) o Ddeddf 1998 i bob awdurdod lleol lunio datganiad alldro ar ôl diwedd pob cyfnod cyllido.

Mae rheoliad 35 yn pennu'r ffurf y mae rhaid i ddatganiadau alldro fod arni.

Mae rheoliad 36 yn pennu'r wybodaeth sydd i'w chynnwys yn y datganiad alldro.

Mae rheoliadau 37 a 38 yn nodi sut y mae datganiad alldro awdurdod lleol i'w gyhoeddi.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Y Gangen Cyllido Ysgolion, Yr Is-adran Seilwaith, Llywodraethiant a Chyllid Addysg, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

2026 Rhif 111

ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Cyllido Ysgolion, Datganiadau Cyllideb a Datganiadau Alldro (Rhif 2) (Cymru) 2026

Gwnaed	*29 Mehefin 2026*
Yn dod i rym	*31 Ionawr 2027*

CYNNWYS

RHAN 1

Cyffredinol

1. Enwi, dod i rym a chymhwyso
2. Dirymu
3. Dehongli

RHAN 2

Cyllideb addysg nad yw ar gyfer ysgolion, cyllideb ysgolion a chyllideb ysgolion unigol

4. Y gyllideb addysg nad yw ar gyfer ysgolion
5. Penderfyniad cychwynnol ynghylch y gyllideb ysgolion
6. Cyllideb ysgolion
7. Cyllideb ysgolion unigol

RHAN 3

Cyfrannau Ysgolion o'r Gyllideb

8. Dyrannu'r gyllideb ysgolion unigol
9. Amseru'r penderfyniad cychwynnol ynghylch cyfrannau ysgolion o'r gyllideb a hysbysu am y penderfyniad hwnnw
10. Y fformiwla ar gyfer penderfynu cyfrannau ysgolion o'r gyllideb
11. Ymgynghori
12. Cyhoeddi fformiwla awdurdod lleol
13. Ysgolion newydd
14. Canran y cyllid "ar sail disgyblion"
15. Niferoedd disgyblion
16. Gofynion pellach yn ymwneud â chyllido disgyblion
17. Niferoedd disgyblion: cofrestru deuol
18. Lleoedd ysgol
19. Ysgolion o ddisgrifiad penodol
20. Cyllid gwahaniaethol
21. Ffactorau neu feini prawf ychwanegol
22. Cyllid ar gyfer disgyblion dros oedran ysgol gorfodol
23. Ad-drefnu ysgol

24. Ysgolion ffederal
25. Addasu cyfran ysgolion o'r gyllideb
26. Disgyblion a waharddwyd yn barhaol neu a dderbyniwyd yn dilyn gwaharddiad parhaol
27. Cywiro gwallau
28. Trefniadau a gymeradwywyd gan Weinidogion Cymru

RHAN 4

Cynlluniau Ariannol

29. Yr hyn y mae'n ofynnol ei gynnwys mewn cynlluniau
30. Y dull o gyhoeddi a'r amserlen
31. Y fforwm ysgolion neu Weinidogion Cymru yn cymeradwyo cynigion i ddiwygio cynlluniau ariannol

RHAN 5

Datganiadau Cyllideb

32. Ffurf ragnodedig datganiadau cyllideb
33. Y dull o gyhoeddi datganiadau cyllideb
34. Yr amserlen ar gyfer cyhoeddi datganiadau cyllideb

RHAN 6

Datganiadau Alldro

35. Ffurf datganiadau alldro
36. Gwybodaeth ar gyfer datganiadau alldro
37. Y dull o gyhoeddi datganiadau alldro
38. Yr amserlen ar gyfer cyhoeddi datganiadau alldro

YR ATODLENNI

Atodlen 1 — Dirymiadau
Atodlen 2 — Dosbarthau neu Ddisgrifiadau o Wariant Cynlluniedig a Ragnodir at Ddibenion Cyllideb Addysg Awdurdod Lleol nad yw ar gyfer Ysgolion
Atodlen 3 — Dosbarthau neu Ddisgrifiadau o Wariant Cynlluniedig y Caniateir ei Ddidynnu o Gyllideb Ysgolion Awdurdod Lleol er mwyn Penderfynu'r Gyllideb Ysgolion Unigol
Atodlen 4 — Cynnwys Cynlluniau Ariannol
Atodlen 5 — Rhan 1 o Ddatganiad Cyllideb
Rhan 1 — Cyffredinol
Rhan 2 — Y Ffurflen
Rhan 3 — Nodiadau i Ran 1 o Ddatganiad Cyllideb
Atodlen 6 — Rhan 2 o Ddatganiad Cyllideb
Rhan 1 — Cyffredinol
Rhan 2 — Y Ffurflen
Rhan 3 — Nodiadau i Ran 2 o Ddatganiad Cyllideb

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 45A(1), (1A), (2), (3), (4) a (4A)(**1**), 45AC(**2**), 47(1), (2) a (3)(**3**), 48(1) a (2)(**4**), 49(2) a (2A)(**5**), 52(1), (2), (3) a (4)(**6**) a 138(7)(**7**) ac (8) o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998(**8**), a pharagraffau 1(7) a 2B o Atodlen 14(**9**) iddi, ac sydd bellach yn arferadwy ganddynt hwy, a chan adrannau 13, 14 a 32(2) o Fesur Addysg (Cymru) 2011(**10**).

RHAN 1

Cyffredinol

Enwi, dod i rym a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cyllido Ysgolion, Datganiadau Cyllideb a Datganiadau Alldro (Rhif 2) (Cymru) 2026.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 31 Ionawr 2027.

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys mewn perthynas â blynyddoedd ariannol sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Ebrill 2027.

(4) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

Dirymu

2. Mae'r Rheoliadau a nodir yn y tabl dirymiadau yn Atodlen 1 wedi eu dirymu i'r graddau a nodir yn yr Atodlen honno.

Dehongli

3.—(1) Yn y Rheoliadau hyn—

(**1**) Mewnosodwyd adran 45A gan Ddeddf Addysg 2002 (p. 32), adran 41(1), ac fe'i diwygiwyd gan Ddeddf Addysg 2005 (p. 18), Atodlen 16, paragraff 3, a chan O.S. 2010/1158.

(**2**) Mewnosodwyd adran 45AC gan Ddeddf Addysg 2005, Atodlen 16, paragraff 4, ac fe'i diwygiwyd gan O.S. 2010/823 ac O.S. 2010/1158.

(**3**) Diwygiwyd adran 47 gan Ddeddf Addysg 2005, Atodlen 16, paragraff 6, a chan O.S. 2010/1158.

(**4**) Diwygiwyd adran 48 gan Ddeddf Addysg 2002, Atodlen 3, paragraff 2, gan Ddeddf Addysg 2005, Atodlen 18, paragraff 7, gan Ddeddf Addysg ac Arolygiadau 2006 (p. 40), Atodlen 5, paragraff 3, ac Atodlen 18, Rhan 6, a chan O.S. 2010/1158.

(**5**) Rhoddwyd is-adrannau (2) a (2A) yn lle is-adrannau (2) a (3), fel y'u deddfwyd yn wreiddiol, gan Ddeddf Addysg ac Arolygiadau 2006, Atodlen 5, paragraff 4, ac fe'u diwygiwyd gan Ddeddf Addysg 2002, Atodlen 21, paragraff 100, gan Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 (dccc 1), Atodlen 5, paragraff 19(7), a chan O.S. 2010/1158.

(**6**) Diwygiwyd adran 52 gan Ddeddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009 (p. 22), adran 253, gan Ddeddf Addysg 2002, adran 45 ac Atodlen 22, Rhan 3, gan Ddeddf Addysg 2005, Atodlen 18, paragraff 10, a chan O.S. 2010/1158.

(**7**) Diwygiwyd adran 138(7) gan Ddeddf Addysg ac Arolygiadau 2006, Atodlen 17, paragraff 3.

(**8**) 1998 p. 31. Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adrannau 45A, 45AC, 47, 48, 49, 52 a 138 ac Atodlen 14 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn rhinwedd Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672), adran 211 o Ddeddf Addysg 2002, adran 119 o Ddeddf Addysg 2005 ac adran 180 o Ddeddf Addysg ac Arolygiadau 2006. Mae'r swyddogaethau hynny bellach yn arferadwy gan Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32). Am ystyr "prescribed" a "regulations", gweler adran 142(1) o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998.

(**9**) Diwygiwyd paragraff 1 o Atodlen 14 gan Ddeddf Addysg ac Arolygiadau 2006, Atodlen 5, paragraff 5(1) i (4), ac Atodlen 18, Rhan 6, a chan O.S. 2010/1158. Rhoddwyd paragraff 2B o Atodlen 14 yn lle paragraff 2, fel y'i deddfwyd yn wreiddiol, gan Ddeddf Addysg ac Arolygiadau 2006, Atodlen 5, paragraff 5(5), ac fe'i diwygiwyd gan O.S. 2010/1158.

(**10**) 2011 mccc 7. Diwygiwyd adran 13 gan Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 (dccc 1), Atodlen 5, paragraff 29(3). Am ystyr "rhagnodedig" a "rheoliadau", gweler adran 31(1) o Fesur Addysg (Cymru) 2011.

mae i “addysg feithrin” (“*nursery education*”) yr ystyr a roddir iddo yn adran 80(1)(b) o Ddeddf 2021;

mae i “anghenion dysgu ychwanegol” (“*additional learning needs*”) yr ystyr a roddir iddo yn adran 2 o Ddeddf 2018;

ystyr “awdurdod lleol” (“*local authority*”) yw cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol yng Nghymru;

mae i “blwyddyn ariannol” yr ystyr a roddir i “financial year” yn adran 579(1) o Ddeddf 1996;

mae i “blwyddyn ysgol” yr ystyr a roddir i “school year” yn adran 579(1) o Ddeddf 1996(**11**);

ystyr “categori ysgol” (“*school category*”) yw'r categorïau o ysgolion a nodir yn adran 20(1) o Ddeddf 1998;

ystyr “y Comisiwn” (“*the Commission*”) yw'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil a sefydlwyd o dan adran 1 o Ddeddf 2022;

mae i “corff llywodraethu” yr ystyr a roddir i “governing body” yn adran 19(1) o Ddeddf 2002;

ystyr “corff llywodraethu dros dro” (“*temporary governing body*”) yw corff llywodraethu dros dro a gyfansoddir o dan adran 34 o Ddeddf 2002(**12**);

ystyr “Cyfanswm y Dirprwyad” (“*Total Delegation*”) yw cyfanswm y Dirprwyad Craidd, y Dirprwyad Disgresiynol, y Dirprwyad Craidd Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Dirprwyad Disgresiynol Anghenion Dysgu Ychwanegol;

ystyr “cyfeirnod unedol yr awdurdod lleol” (“*local authority's unitary reference number*”) yw'r cyfeirnod a ddyrennir i'r awdurdod lleol gan Weinidogion Cymru neu gan yr Ysgrifennydd Gwladol;

ystyr “cyfeirnod yr ysgol” (“*school's reference number*”) yw'r cyfeirnod a ddyrennir gan Weinidogion Cymru neu gan yr Ysgrifennydd Gwladol i ysgol a gynhelir;

ystyr “cyfnod cyllido” (“*funding period*”) yw blwyddyn ariannol;

ystyr “cyfnod cyllido blaenorol” (“*previous funding period*”) yw'r cyfnod cyllido yn union cyn y cyfnod cyllido y mae'r awdurdod lleol yn penderfynu cyfran ysgol o'r gyllideb ar ei gyfer;

ystyr “y cyfnod cyllido cyfredol” (“*the current funding period*”) yw'r cyfnod cyllido y mae cyfran yr ysgol o'r gyllideb yn cael ei phenderfynu ar ei gyfer yn unol â'r Rheoliadau hyn;

mae i “cyfran ysgol o'r gyllideb” yr ystyr a roddir i “school's budget share” yn adran 47(1) o Ddeddf 1998;

ystyr “Cyngor y Gweithlu Addysg” (“*Education Workforce Council*”) yw Cyngor y Gweithlu Addysg y parhawyd â'i fodolaeth gan adran 2 o Ddeddf 2014;

ystyr “cyllid ar sail disgyblion” (“*pupil-led funding*”) yw'r cyllid a benderfynir gan awdurdod lleol yn unol â rheoliad 14;

(**11**) Mewnosodwyd y diffiniad o “school year” gan Ddeddf Addysg 1997, Atodlen 7, paragraff 43.
(**12**) Diwygiwyd adran 34 gan Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, Atodlen 5, paragraff 6(2), a chan O.S. 2010/1158.

mae i “cyllideb addysg nad yw ar gyfer ysgolion” yr ystyr a roddir i “non-schools education budget” yn adran 45A(1) o Ddeddf 1998;

mae i “cyllideb ddirprwyedig” yr ystyr a roddir i “delegated budget” yn adran 49(7) o Ddeddf 1998;

mae i “cyllideb ysgolion” yr ystyr a roddir i “schools budget” yn adran 45A(2) o Ddeddf 1998;

mae i “cyllideb ysgolion unigol” yr ystyr a roddir i “individual schools budget” yn adran 45A(3) o Ddeddf 1998;

ystyr “cymhwystra i gael prydau ysgol am ddim” (“*eligibility for free school meals*”) yw'r cymhwystra i gael ciniawau ysgol am ddim o dan adran 512ZB o Ddeddf 1996(**13**);

ystyr “cynllun ariannol” (“*financial scheme*”) yw cynllun a gynhelir gan awdurdod lleol o dan adran 48 o Ddeddf 1998(**14**);

mae i “cynllun datblygu unigol” (“*individual development plan*”) yr ystyr a roddir iddo yn adran 10 o Ddeddf 2018;

ystyr “datganiad alldro” (“*outturn statement*”) yw'r datganiad y cyfeirir ato yn adran 52(2) o Ddeddf 1998;

ystyr “datganiad cyllideb” (“*budget statement*”) yw'r datganiad y cyfeirir ato yn adran 52(1) o Ddeddf 1998;

ystyr “Deddf 1996” (“*the 1996 Act*”) yw Deddf Addysg 1996(**15**);

ystyr “Deddf 1998” (“*the 1998 Act*”) yw Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998;

ystyr “Deddf 2002” (“*the 2002 Act*”) yw Deddf Addysg 2002;

ystyr “Deddf 2013” (“*the 2013 Act*”) yw Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013(**16**);

ystyr “Deddf 2014” (“*the 2014 Act*”) yw Deddf Addysg (Cymru) 2014(**17**);

ystyr “Deddf 2018” (“*the 2018 Act*”) yw Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018(**18**);

ystyr “Deddf 2021” (“*the 2021 Act*”) yw Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021(**19**);

ystyr “Deddf 2022” (“*the 2022 Act*”) yw Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022(**20**);

ystyr “Dirprwyad Craidd” (“*Core Delegation*”) yw'r rhan honno o'r gyllideb ysgolion sy'n ymwneud ag eitemau o wariant nad ydynt wedi eu nodi yn Atodlen 3 ac sy'n

---

(**13**) Rhoddwyd adran 512ZB yn lle adran 512, fel y'i deddfwyd yn wreiddiol, gan Ddeddf Addysg 2002, adran 201(1), ac fe'i diwygiwyd gan Ddeddf Diwygio Lles 2007 (p. 5), Atodlen 3, paragraff 16(3), gan Ddeddf Tlodi Plant 2010 (p. 9), adran 26(1), gan Ddeddf Diwygio Lles 2012 (p. 5), Atodlen 2, paragraff 39, ac Atodlen 14, Rhan 1, gan Ddeddf Plant a Theuluoedd 2014 (p. 6), adran 106(2), a chan O.S. 2010/1158.

(**14**) Diwygiwyd adran 48 gan Ddeddf Addysg 2002, Atodlen 3, paragraff 2, gan Ddeddf Addysg 2005, Atodlen 18, paragraff 7, gan Ddeddf Addysg ac Arolygiadau 2006, Atodlen 5, paragraff 3, ac Atodlen 18, Rhan 6, a chan O.S. 2010/1158.

(**15**) 1996 p. 56.

(**16**) 2013 dccc 1.

(**17**) 2014 dccc 5.

(**18**) 2018 dccc 2.

(**19**) 2021 dsc 4.

(**20**) 2022 dsc 1.

cael ei dyrannu gan awdurdod lleol i'w gyllideb ysgolion unigol ac nad yw'n rhan o'r Dirprwyadau Anghenion Dysgu Ychwanegol;

ystyr "Dirprwyad Craidd Anghenion Dysgu Ychwanegol" ("*Additional Learning Needs Core Delegation*") yw'r rhan honno o'r gyllideb ysgolion sy'n ymwneud â gwariant mewn cysylltiad ag anghenion dysgu ychwanegol ac nad yw wedi ei nodi yn Atodlen 3 ac sy'n cael ei dyrannu gan awdurdod lleol i'w gyllideb ysgolion unigol;

ystyr "Dirprwyad Disgresiynol" ("*Discretionary Delegation*") yw'r rhan honno o'r gyllideb ysgolion sy'n ymwneud ag eitemau o wariant a nodir yn Atodlen 3 ac sy'n cael ei dyrannu gan awdurdod lleol i ysgolion a gynhelir ganddo ac nad yw'n rhan o'r Dirprwyadau Anghenion Dysgu Ychwanegol;

ystyr "Dirprwyad Disgresiynol Anghenion Dysgu Ychwanegol" ("*Additional Learning Needs Discretionary Delegation*") yw'r rhan honno o'r gyllideb ysgolion a ddyrennir gan awdurdod lleol i dalu am yr eitemau o wariant a nodir ym mharagraffau 4 i 12 o Atodlen 3 ac a ddyrennir wedyn gan awdurdod lleol i ysgolion a gynhelir ganddo;

ystyr "Dirprwyadau Anghenion Dysgu Ychwanegol" ("*Additional Learning Needs Delegations*") yw cyfanswm y Dirprwyad Craidd Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Dirprwyad Disgresiynol Anghenion Dysgu Ychwanegol;

mae i "disgybl" yr ystyr a roddir i "pupil" yn adran 3 o Ddeddf 1996(**21**);

mae i "disgybl cofrestredig" yr ystyr a roddir i "registered pupil" yn adran 434(5) o Ddeddf 1996;

mae i "dosbarth derbyn" yr ystyr a roddir i "reception class" yn adran 142(1) o Ddeddf 1998;

ystyr "dosbarth meithrin" ("*nursery class*") yw dosbarth sy'n cael addysg lawnamser neu ran-amser sy'n addas yn gyfan gwbl neu'n bennaf i blant nad ydynt wedi cyrraedd oedran ysgol gorfodol;

ystyr "ffactor" ("*factor*") yw un o'r ffactorau a ystyrir yn fformiwla'r awdurdod lleol;

ystyr "fformiwla" ("*formula*") yw fformiwla a benderfynir gan awdurdod lleol yn unol â rheoliad 10;

ystyr "fforwm ysgolion" ("*schools forum*") yw fforwm a sefydlwyd gan awdurdod lleol o dan adran 47A(1) o Ddeddf 1998(**22**);

ystyr "Grant gan y Comisiwn" ("*Grant by the Commission*") yw'r grant sy'n daladwy i'r awdurdod lleol gan y Comisiwn o dan adran 101 o Ddeddf 2022;

ystyr "grŵp blwyddyn" ("*year group*") yw grŵp o blant mewn ysgol a gynhelir y bydd y mwyafrif ohonynt, mewn blwyddyn ysgol benodol, yn cyrraedd yr un oedran;

ystyr "gwaharddiad" ("*exclusion*"), ac mae "gwahardd" ("*exclude*") i'w ddehongli yn unol â hynny, yw gwaharddiad disgybl cofrestredig o ysgol a gynhelir, pa un ai am gyfnod penodedig neu'n barhaol, yn unol ag adran 52 o Ddeddf 2002 a rheoliadau(**23**) a wneir o dan yr adran honno;

(**21**) Diwygiwyd adran 3 gan Ddeddf Addysg 1997, Atodlen 7, paragraff 9, a chan Ddeddf Addysg 2002, Atodlen 21, paragraff 34.

(**22**) Mewnosodwyd adran 47A gan Ddeddf Addysg 2002, adran 43, ac fe'i diwygiwyd gan O.S. 2010/1158; mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(**23**) Diwygiwyd adran 52 gan Ddeddf Addysg 2011 (p. 21), adran 4(3), gan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 (mccc 4), Atodlen 3, paragraff 6, gan Ddeddf Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) 2024 (dsc 5), Atodlen 1, paragraff 11, a chan O.S. 2010/1158. Y Rheoliadau cyfredol yw O.S. 2003/3227 (Cy. 308) ac O.S. 2003/3246 (Cy. 321).

ystyr “gwariant cyfalaf” (“*capital expenditure*”) yw gwariant y mae awdurdod lleol yn bwriadu ei gyfalafu yn ei gyfrifon yn unol ag arferion priodol, sef yr arferion cyfrifyddu hynny—

(a) y mae’n ofynnol i’r awdurdod lleol eu dilyn yn rhinwedd unrhyw ddeddfiad, neu

(b) yr ystyrir yn gyffredinol eu bod, i’r graddau y maent yn gyson ag unrhyw ddeddfiad o’r fath, pa un ai drwy gyfeirio at unrhyw god cyhoeddedig a gydnabyddir yn gyffredinol neu fel arall, yn arferion cyfrifyddu priodol i’w dilyn wrth gadw cyfrifon awdurdodau lleol, naill ai’n gyffredinol neu yn ôl y disgrifiad o dan sylw;

ystyr “lle ysgol” (“*school place*”) yw lle mewn ysgol a gynhelir a neilltuwyd i blentyn ei mynychu fel disgybl cofrestredig yn yr ysgol a gynhelir honno;

ystyr “llywodraethwyr” (“*governors*”) yw personau a etholir neu a benodir i fod yn aelodau corff llywodraethu;

mae i “mangre” yr ystyr a roddir i “premises” yn adran 579(1) o Ddeddf 1996;

ystyr “Mesur 2011” (“*the 2011 Measure*”) yw Mesur Addysg (Cymru) 2011(**24**);

ystyr “Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru” (“*the Welsh Index of Multiple Deprivation*”) yw’r ddogfen o’r enw “Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALlC) 2025: Adroddiad Canlyniadau” a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru ar 27 Tachwedd 2025(**25**);

mae i “oedran ysgol gorfodol” yr ystyr a roddir i “compulsory school age” yn adran 8 o Ddeddf 1996(**26**);

mae i “pennaeth” yr ystyr a roddir i “head teacher” yn adran 579(1) o Ddeddf 1996;

mae i “plentyn” yr ystyr a roddir i “child” yn adran 579(1) o Ddeddf 1996;

mae i “rhiant” yr ystyr a roddir i “parent” yn adran 576 o Ddeddf 1996(**27**);

mae i “swyddogaethau” yr ystyr a roddir i “functions” yn adran 579(1) o Ddeddf 1996;

ystyr “tymor yr haf” (“*summer term*”) yw’r tymor olaf yn y flwyddyn ysgol;

mae i “uned cyfeirio disgyblion” yr ystyr a roddir i “pupil referral unit” yn adran 19A(2) o Ddeddf 1996(**28**);

mae i “ysgol a gynhelir” yr ystyr a roddir i “maintained school” yn adran 45(1A) o Ddeddf 1998(**29**);

mae i “ysgol annibynnol” yr ystyr a roddir i “independent school” yn adran 463 o Ddeddf 1996(**30**);

(**24**) 2011 mccc 7.
(**25**) Mae Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru ar gael yn https://www.llyw.cymru/mynegai-amddifadedd-lluosog-cymru-2025.
(**26**) Amnewidiwyd is-adrannau (2) a (4) gan Ddeddf Addysg 1997 (p. 44), adran 57; mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw’r un ohonynt yn berthnasol i’r Rheoliadau hyn.
(**27**) Diwygiwyd adran 576 gan Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998, Atodlen 30, paragraff 180, ac Atodlen 31.
(**28**) Mewnosodwyd adran 19A gan Ddeddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021, Atodlen 2, paragraff 4, ac fe’i diwygiwyd gan O.S. 2022/744 (Cy. 161).
(**29**) Mewnosodwyd adran 45(1A) gan Ddeddf Addysg 2002, Atodlen 21, paragraff 99(2), ac fe’i diwygiwyd gan Ddeddf Addysg 2011, adran 50(2).
(**30**) Amnewidiwyd adran 463 gan Ddeddf Addysg 2002, adran 172, ac fe’i diwygiwyd gan Ddeddf Plant a Theuluoedd 2014, Atodlen 3, paragraff 43, gan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a’r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018, Atodlen 1, paragraff 4(20), a chan O.S. 2010/1158 ac O.S. 2016/413 (Cy. 131).

mae i “ysgol arbennig” yr ystyr a roddir i “special school” yn adran 337(2) o Ddeddf 1996(**31**);

mae i “ysgol feithrin a gynhelir” yr ystyr a roddir i “maintained nursery school” yn adran 22(9) o Ddeddf 1998(**32**);

mae i “ysgol ganol” yr ystyr a roddir i “middle school” yn adran 5(3) o Ddeddf 1996(**33**);

mae i “ysgol gynradd” yr ystyr a roddir i “primary school” yn adran 5(1) o Ddeddf 1996(**34**) ac sydd, neu a fydd, yn ysgol a gynhelir;

mae i “ysgol newydd” yr ystyr a roddir i “new school” yn adran 72(3) o Ddeddf 1998(**35**);

mae i “ysgol uwchradd” yr ystyr a roddir i “secondary school” yn adran 5(2) o Ddeddf 1996 ac sydd, neu a fydd, yn ysgol a gynhelir;

mae i “ysgolion” yr ystyr a roddir i “schools” yn adran 4 o Ddeddf 1996(**36**).

(2) Yn y Rheoliadau hyn—

(a) mae cyfeiriad at CERA yn gyfeiriad at wariant cyfalaf y mae awdurdod lleol yn disgwyl iddo gael ei dalu o gyfrif refeniw yr awdurdod lleol o fewn ystyr “revenue account” yn adran 22 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003(**37**);

(b) mae cyfeiriad at wariant a eithrir yn gyfeiriad at y dosbarthau neu’r disgrifiadau canlynol o wariant—

(i) gwariant cyfalaf heblaw CERA,

(ii) gwariant at ddibenion adran 28 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**38**) (stopio cerbydau wrth groesfannau ysgol), a

(iii) gwariant yr eir iddo gan yr awdurdod lleol o dan adran 51A o Ddeddf 1998(**39**) (gwariant yr eir iddo at ddibenion cymunedol);

(c) mae cyfeiriad at wariant, oni nodir fel arall, yn gyfeiriad at y gwariant hwnnw ar ôl didynnu—

(i) yr holl grantiau penodol cysylltiedig,

(ii) yr holl ffioedd, taliadau ac incwm cysylltiedig, a

(iii) cyllid a geir gan Weinidogion Cymru mewn cysylltiad â thrafodiad cyllid preifat;

(**31**) Mewnosodwyd adran 337(2) gan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a’r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018, Atodlen 1, paragraff 4(10).
(**32**) Diwygiwyd adran 22(9) gan O.S. 2010/1158.
(**33**) Diwygiwyd adran 5(3) gan Ddeddf Addysg 2005, Atodlen 12, paragraff 1, ac fe’i hamnewidiwyd gan Ddeddf Addysg ac Arolygiadau 2006, Atodlen 3, paragraff 7.
(**34**) Diwygiwyd adran 5(1) gan Ddeddf Addysg 2002, Atodlen 22, Rhan 3.
(**35**) Diwygiwyd adran 72(3) gan Ddeddf Addysg 2002, Atodlen 21, paragraff 106.
(**36**) Diwygiwyd adran 4 gan Ddeddf Addysg 1997, adran 51, ac Atodlen 7, paragraff 10, gan Ddeddf Addysg 2002, Atodlen 22, Rhan 3, gan Ddeddf Gofal Plant 2006 (p. 21), adran 95(2) a (3), gan Ddeddf Addysg 2011, Atodlen 13, paragraff 9(2), gan Ddeddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021, Atodlen 2, paragraff 2, a chan O.S. 2010/1080 ac O.S. 2019/1027.
(**37**) 2003 (p. 26) ac fe’i diwygiwyd gan Ddeddf Archwilio ac Atebolrwydd Lleol 2014 (p. 2), Atodlen 12, paragraff 51.
(**38**) 1984 (p. 27) ac fe’i diwygiwyd gan Ddeddf Trafnidiaeth 2000 (p. 38), adran 270(3) ac Atodlen 31, Rhan 5(2); mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw’r un ohonynt yn berthnasol i’r Rheoliadau hyn.
(**39**) Mewnosodwyd adran 51A gan Ddeddf Addysg 2002, Atodlen 3, paragraff 4, ac fe’i diwygiwyd gan Ddeddf Addysg 2005, Atodlen 18, paragraff 9, gan Ddeddf Plant, Ysgolion a Theuluoedd 2010 (p. 26), adran 4(4), gan Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, Atodlen 5, paragraff 4(3), a chan O.S. 2010/1158.

(d) mae cyfeiriad at benderfynu neu ailbenderfynu cyfran o gyllideb neu swm sydd i'w ddyrannu yn gyfeiriad at benderfyniad neu ailbenderfyniad o'r fath ar gyfer y cyfnod cyllido, oni nodir fel arall;

(e) mae cyfeiriad at gorff llywodraethu yn cynnwys corff llywodraethu dros dro ysgol newydd;

(f) mae cyfeiriad at ysgol a gynhelir neu ysgol feithrin a gynhelir yn cynnwys ysgol newydd;

(g) mae cyfeiriad at drafodiad cyllid preifat yn gyfeiriad at drafodiad fel y diffinnir "private finance transaction" gan reoliad 16 o Reoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf) 1997(**40**);

(h) mae cyfeiriad at ddisgybl yn cael ei dderbyn i ysgol a gynhelir (sut bynnag y'i mynegir) yn gyfeiriad at ddisgybl a dderbynnir yn unol â'r trefniadau derbyn a nodir yn Rhan 3 o Ddeddf 1998;

(i) nid yw cyfeiriad at ysgolion a gynhelir gan awdurdod lleol (sut bynnag y'i mynegir) yn cynnwys ysgolion nad ydynt yn ysgolion a gynhelir fel y'u diffinnir ym mharagraff (1);

(j) mae cyfeiriad at grant penodol yn gyfeiriad at unrhyw grant a delir i'r awdurdod lleol o dan amodau sy'n gosod cyfyngiadau ar ddibenion penodol yr awdurdod lleol y caniateir defnyddio'r grant ar eu cyfer, ond nid yw'n cynnwys—

(i) unrhyw grant a roddir gan Weinidogion Cymru o dan adran 14 o Ddeddf 2002(**41**) na Grant gan y Comisiwn, neu

(ii) unrhyw grant penodol a ddefnyddir i gefnogi gwariant drwy'r gyllideb ysgolion unigol.

RHAN 2

Cyllideb addysg nad yw ar gyfer ysgolion, cyllideb ysgolion a chyllideb ysgolion unigol

Y gyllideb addysg nad yw ar gyfer ysgolion

4.—(1) Mae'r dosbarthau neu'r disgrifiadau o wariant awdurdodau lleol a bennir yn Atodlen 2 wedi eu rhagnodi at ddibenion adran 45A(1) o Ddeddf 1998 a phenderfynu cyllideb addysg awdurdod lleol nad yw ar gyfer ysgolion, ac eithrio i'r graddau y mae gwariant o'r fath yn dod o fewn paragraff (2).

(2) Nid yw paragraff (1) yn gymwys i unrhyw wariant awdurdod lleol sydd i'w dalu o gyfran ysgol o'r gyllideb yn rhinwedd unrhyw ddeddfiad.

(3) Mae'r gwariant y cyfeirir ato ym mharagraff (1) yn cynnwys gwariant ar gostau gweinyddol cysylltiedig a gorbenion cysylltiedig.

Penderfyniad cychwynnol ynghylch y gyllideb ysgolion

5.—(1) Rhaid i awdurdod lleol, ar neu cyn 14 Chwefror yn union cyn dechrau cyfnod cyllido—

(**40**) O.S. 1997/319. Mae'r Rheoliadau hyn wedi darfod ond mae erthygl 11 o O.S. 2004/533 yn cynnwys darpariaeth arbed ar gyfer rheoliad 16 o'r Rheoliadau hynny. Amnewidiwyd rheoliad 16 gan O.S. 1998/371 ac fe'i diwygiwyd gan O.S. 1999/1852 ac O.S. 2003/515.

(**41**) Diwygiwyd adran 14 gan Ddeddf Plant 2004 (p. 31), adran 59, gan Ddeddf Addysg 2005, Atodlen 14, paragraff 23, gan Ddeddf Addysg 2011, adran 15(2) o chan O.S. 2010/1158 ac O.S. 2019/1027.

(a) gwneud penderfyniad cychwynnol ynghylch ei gyllideb ysgolion ar gyfer y cyfnod cyllido hwnnw, a

(b) rhoi hysbysiad am ei benderfyniad cychwynnol i Weinidogion Cymru a chorff llywodraethu pob ysgol a gynhelir ganddo.

(2) Pan fo awdurdod lleol yn gwneud ailbenderfyniad ynghylch ei gyllideb ysgolion wedi hynny, rhaid iddo, o fewn 28 o ddiwrnodau iddo wneud yr ailbenderfyniad, roi hysbysiad am yr ailbenderfyniad hwnnw i Weinidogion Cymru ac i gyrff llywodraethu pob ysgol a gynhelir ganddo.

Cyllideb ysgolion

6.—(1) Mae'r dosbarthau neu'r disgrifiadau o wariant awdurdodau lleol a bennir ym mharagraff (2) wedi eu rhagnodi at ddibenion adran 45A(2) o Ddeddf 1998 a phenderfynu cyllideb ysgolion awdurdod lleol.

(2) Y dosbarthau neu'r disgrifiadau o wariant awdurdodau lleol yw—

(a) gwariant ar ddarparu a chynnal a chadw ysgolion a gynhelir ac ar addysg disgyblion sydd wedi eu cofrestru yn yr ysgolion hynny,

(b) gwariant ar addysg disgyblion—

(i) mewn ysgolion annibynnol,

(ii) mewn unedau cyfeirio disgyblion,

(iii) yng nghartref y disgybl, a

(iv) yn yr ysbyty,

(c) gwariant ar unrhyw drefniadau eraill ar gyfer darparu addysg gynradd ac addysg uwchradd ar gyfer disgyblion heblaw mewn ysgolion a gynhelir, a

(d) yr holl wariant arall yr eir iddo mewn cysylltiad â swyddogaethau'r awdurdod lleol mewn perthynas â darparu addysg gynradd ac addysg uwchradd, i'r graddau nad yw gwariant o'r fath yn dod o fewn paragraff (2)(a) i (c).

(3) Nid yw paragraff (2) yn cynnwys y dosbarthau na'r disgrifiadau canlynol o wariant—

(a) gwariant sy'n dod o fewn dosbarth neu ddisgrifiad o wariant a ragnodir gan reoliad 4, a

(b) gwariant a eithrir.

(4) Yn y rheoliad hwn—

mae i "addysg gynradd" yr ystyr a roddir i "primary education" yn adran 2(1) o Ddeddf 1996(**42**);

mae i "addysg uwchradd" yr ystyr a roddir i "secondary education" yn adran 2(2) o Ddeddf 1996.

Cyllideb ysgolion unigol

7.—(1) Rhaid i awdurdod lleol, ar neu cyn 14 Chwefror yn union cyn dechrau cyfnod cyllido, ddidynnu o'i gyllideb ysgolion unrhyw un neu ragor o'r dosbarthau neu'r disgrifiadau o wariant cynlluniedig a nodir yn Atodlen 3, neu bob un ohonynt, yn gyfan gwbl neu'n

(**42**) Amnewidiwyd adran 2(1) gan Ddeddf Addysg 2002, adran 156(2).

rhannol, y mae'n bwriadu ei ddidynnu neu eu didynnu er mwyn cyrraedd ei gyllideb ysgolion unigol ar gyfer y cyfnod cyllido hwnnw.

(2) Mae'r gwariant y cyfeirir ato ym mharagraff (1) yn cynnwys gwariant ar gostau gweinyddol cysylltiedig a gorbenion cysylltiedig.

RHAN 3

Cyfrannau Ysgolion o'r Gyllideb

Dyrannu'r gyllideb ysgolion unigol

8.—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), rhaid i awdurdod lleol ddyrannu, ym mhob cyfnod cyllido yn unol â'r Rhan hon, y cyfan o'i gyllideb ysgolion unigol ar gyfer y cyfnod cyllido hwnnw ar ffurf cyfrannau ysgolion o'r gyllideb ar gyfer ysgolion y mae'n eu cynnal.

(2) Nid oes angen i awdurdod lleol, ar y cychwyn, ddyrannu'r cyfan o'i gyllideb ysgolion unigol ar ffurf cyfrannau ysgolion o'r gyllideb ar ddechrau cyfnod cyllido, a chaniateir iddo, yn lle hynny, gadw swm yn ôl at ddiben ailbenderfyniadau neu gywiro gwallau ("dyraniad a gedwir yn ôl").

(3) Rhaid defnyddio unrhyw ddyraniad a gedwir yn ôl at y dibenion a nodir ym mharagraff (2) neu ei ddosbarthu i ysgolion fel sy'n ofynnol gan baragraff (1) cyn diwedd y cyfnod cyllido hwnnw.

Amseru'r penderfyniad cychwynnol ynghylch cyfrannau ysgolion o'r gyllideb a hysbysu am y penderfyniad hwnnw

9.—(1) Rhaid i awdurdod lleol, ar neu cyn 31 Mawrth yn union cyn dechrau cyfnod cyllido—

(a) gwneud penderfyniad cychwynnol ynghylch swm cyfran ysgol o'r gyllideb ar gyfer ysgolion a gynhelir ganddo ar gyfer y cyfnod cyllido hwnnw, a

(b) rhoi hysbysiad i gyrff llywodraethu'r ysgolion a gynhelir ganddo am gyfran pob ysgol o'r gyllideb ar gyfer y cyfnod cyllido hwnnw.

(2) Rhaid i'r hysbysiad a roddir o dan baragraff (1)(b)—

(a) cynnwys esboniad ynghylch sut y penderfynwyd cyfran yr ysgol o'r gyllideb, a

(b) cynnwys amcangyfrif o gyfrannau'r ysgol o'r gyllideb ar gyfer y ddau gyfnod cyllido dilynol.

(3) Nid yw'r amcangyfrif a ddarperir o dan baragraff (2)(b) yn rhwymo'r awdurdod lleol o ran y penderfyniadau gwirioneddol y caiff eu gwneud ar gyfer y ddau gyfnod cyllido dilynol.

Y fformiwla ar gyfer penderfynu cyfrannau ysgolion o'r gyllideb

10.—(1) Rhaid i awdurdod lleol benderfynu, ar ôl yr ymgynghoriad y cyfeirir ato yn rheoliad 11 a chyn dechrau cyfnod cyllido, y fformiwla y bydd yn ei defnyddio i benderfynu cyfrannau ysgolion o'r gyllideb yn y cyfnod cyllido hwnnw.

(2) Rhaid i awdurdod lleol, wrth benderfynu'r fformiwla, roi sylw i'r ffactorau, y meini prawf a'r gofynion a nodir yn y Rhan hon.

(3) Rhaid i awdurdod lleol roi sylw i'r ffaith ei bod yn ddymunol i fformiwla o'r fath fod yn syml, yn wrthrychol, yn fesuradwy, yn rhagweladwy o ran ei heffaith ac wedi ei mynegi'n glir.

(4) Ni chaiff awdurdod lleol ddefnyddio ffactorau na meini prawf yn ei fformiwla sy'n rhoi lwfans, yn gyfan gwbl neu'n rhannol, ar gyfer unrhyw swm a ddyrennir i ysgol a gynhelir o unrhyw grant a delir i'r awdurdod lleol gan Weinidogion Cymru.

(5) Yn ddarostyngedig i reoliad 28 (trefniadau a gymeradwywyd gan Weinidogion Cymru), rhaid i awdurdod lleol ddefnyddio'r fformiwla a benderfynwyd o dan baragraff (1) ym mhob penderfyniad ac ailbenderfyniad ynghylch cyfrannau ysgolion o'r gyllideb.

Ymgynghori

11.—(1) Rhaid i awdurdod lleol ymgynghori â'r personau hynny a nodir ym mharagraff (2) cyn penderfynu ei fformiwla o dan reoliad 10(1) a chyn i unrhyw newidiadau arfaethedig i'w fformiwla gael eu gwneud mewn perthynas ag—

(a) y ffactorau a'r meini prawf a ystyriwyd wrth benderfynu ei fformiwla,

(b) y dulliau a ddefnyddiwyd wrth benderfynu ei fformiwla, neu

(c) yr egwyddorion a'r rheolau a fabwysiadwyd yn ei fformiwla yn y cyfnod cyllido blaenorol, gan gynnwys unrhyw ffactorau, meini prawf, dulliau, egwyddorion neu reolau newydd.

(2) Rhaid i awdurdod lleol ymgynghori ag—

(a) y fforwm ysgolion ar gyfer ei ardal, a

(b) corff llywodraethu a phennaeth pob ysgol y mae'n ei chynnal.

(3) Nid yw paragraff (1) yn gymwys i ailbenderfyniadau, na chywiriadau o wallau, a wneir o dan reoliadau 8(2), 22(4) neu 26.

(4) Rhaid i'r ymgynghoriad ddigwydd mewn digon o amser i ganiatáu i'r canlyniad gael ei ystyried wrth benderfynu fformiwla'r awdurdod lleol ac wrth wneud y penderfyniad cychwynnol ynghylch cyfrannau ysgolion o'r gyllideb.

(5) Rhaid i awdurdod lleol roi gwybod am ganlyniad yr ymgynghoriad i bob un o'r rhai yr ymgynghorwyd â hwy.

Cyhoeddi fformiwla awdurdod lleol

12.—(1) Rhaid i awdurdod lleol gyhoeddi'r fformiwla a benderfynwyd yn unol â rheoliad 10 ("y fformiwla a benderfynwyd") yn rhad ac am ddim ar wefan a gynhelir gan yr awdurdod lleol ac sy'n hygyrch i'r cyhoedd yn gyffredinol.

(2) Rhaid i'r awdurdod lleol anfon copi electronig o'r fformiwla a benderfynwyd at gorff llywodraethu a phennaeth pob ysgol a gynhelir ganddo.

(3) Pryd bynnag y bydd awdurdod lleol yn ailbenderfynu'r fformiwla a benderfynwyd, rhaid iddo, heb fod yn hwyrach na'r dyddiad y mae'r fformiwla a ailbenderfynwyd i ddod i rym arno, gyhoeddi'r fformiwla a ailbenderfynwyd yn unol â pharagraffau (1) a (2), ynghyd â datganiad bod y fformiwla a ailbenderfynwyd yn dod i rym ar y dyddiad hwnnw.

Ysgolion newydd

13.—(1) Rhaid i ysgol newydd gael cyllideb ddirprwyedig o'r dyddiad pan fydd yr ysgol yn derbyn disgyblion gyntaf.

(2) Ond caiff fforwm ysgolion awdurdod lleol, ar gais yr awdurdod lleol—

(a) amrywio'r dyddiad hwnnw i ddyddiad a gynigir gan yr awdurdod lleol,

(b) amrywio'r dyddiad i ddyddiad gwahanol, neu

(c) gwrthod amrywio'r dyddiad.

(3) Pan fo'r fforwm ysgolion yn amrywio'r dyddiad i ddyddiad gwahanol, neu'n gwrthod ei amrywio, caiff yr awdurdod lleol wneud cais i Weinidogion Cymru i amrywio'r dyddiad.

(4) Caiff Gweinidogion Cymru—

(a) amrywio'r dyddiad i ddyddiad a gynigir gan yr awdurdod lleol,

(b) amrywio'r dyddiad i ddyddiad gwahanol, neu

(c) gwrthod amrywio'r dyddiad.

Canran y cyllid "ar sail disgyblion"

14.—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), wrth benderfynu ac ailbenderfynu cyfrannau ysgolion o'r gyllideb ar gyfer ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd, rhaid i awdurdod lleol sicrhau bod ei fformiwla yn darparu bod o leiaf 70% o'r swm sy'n ffurfio ei gyllideb ysgolion unigol yn cael ei ddyrannu gan ddilyn un neu ragor o'r dulliau a ganlyn—

(a) yn unol â rheoliad 15(1);

(b) yn unol â rheoliad 15(6) pan fo'r materion a nodir yn rheoliad 15(7) yn cael eu hystyried gan yr awdurdod lleol;

(c) yn unol ag unrhyw ffactorau neu feini prawf eraill gan ddefnyddio niferoedd disgyblion sy'n darparu ar gyfer yr un cyllid i ddisgyblion o'r un oedran ni waeth beth fo natur yr ysgol y maent yn mynd iddi;

(d) i leoedd ysgol mewn ysgolion a gynhelir y mae'r awdurdod lleol yn cydnabod eu bod wedi eu neilltuo ar gyfer plant mewn dosbarthiadau meithrin;

(e) i leoedd ysgol mewn ysgolion cynradd neu ysgolion uwchradd y mae'r awdurdod lleol yn cydnabod eu bod wedi eu neilltuo ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol;

(f) ar gyfer disgyblion â chynllun datblygu unigol pan fo cyllid mewn cysylltiad â disgyblion o'r fath yn ffurfio rhan o gyllidebau dirprwyedig yr ysgol.

(2) At ddibenion y rheoliad hwn, rhaid eithrio'r canlynol o gyllideb ysgolion unigol yr awdurdod lleol—

(a) cyfrannau'r ysgol o'r gyllideb ar gyfer ysgolion sy'n darparu addysg ar gyfer disgyblion dros oedran ysgol gorfodol yn unig,

(b) cyfrannau'r ysgol o'r gyllideb ar gyfer ysgolion arbennig, ac

(c) unrhyw ran o'r gyllideb ysgolion unigol a gedwir yn ôl o dan reoliad 8(2) at ddiben ailbenderfyniadau neu gywiro gwallau.

Niferoedd disgyblion

15.—(1) Rhaid i awdurdod lleol ystyried yn ei fformiwla nifer y disgyblion cofrestredig yn yr ysgolion a ganlyn ar unrhyw ddyddiadau a benderfynir ganddo wrth benderfynu cyfrannau ysgolion o'r gyllideb—

(a) ysgolion meithrin a gynhelir,

(b) ysgolion cynradd, ac

(c) ysgolion uwchradd.

(2) At ddibenion paragraff (1), nid yw nifer y disgyblion cofrestredig yn cynnwys—

(a) disgyblion y mae Grant gan y Comisiwn yn daladwy mewn cysylltiad â hwy,

(b) disgyblion mewn lleoedd ysgol y mae'r awdurdod lleol yn cydnabod eu bod wedi eu neilltuo ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol, neu

(c) disgyblion mewn lleoedd ysgol y mae'r awdurdod lleol yn cydnabod eu bod wedi eu neilltuo ar gyfer plant mewn dosbarthiadau meithrin, ac eithrio pan fo'r awdurdod lleol yn dewis, o dan reoliad 18, ystyried yn ei fformiwla nifer y lleoedd ysgol y mae'n dymuno eu cyllido mewn cysylltiad â phlant mewn dosbarthiadau meithrin.

(3) Pan fo awdurdod lleol yn penderfynu un dyddiad yn unig at ddibenion paragraff (1), rhaid iddo fod yn ddyddiad sy'n dod—

(a) cyn dechrau'r cyfnod cyllido o dan sylw, a

(b) yn y flwyddyn ysgol y mae dechrau'r cyfnod cyllido o dan sylw yn digwydd ynddi.

(4) Pan fo awdurdod lleol yn penderfynu mwy nag un dyddiad at ddibenion paragraff (1), yna—

(a) rhaid i un o'r dyddiadau hynny fodloni paragraff (3), a

(b) o ran y dyddiad arall neu'r dyddiadau eraill—

(i) ni chaiff unrhyw ddyddiad fod yn gynt na dechrau'r flwyddyn ysgol y mae dechrau'r cyfnod cyllido o dan sylw yn digwydd ynddi, a

(ii) caiff yr awdurdod lleol benderfynu dyddiad neu ddyddiadau sydd yn y dyfodol ac amcangyfrif nifer y disgyblion cofrestredig yn yr ysgol ar y dyddiad hwnnw neu'r dyddiadau hynny.

(5) Nid yw'r cyfyngiadau ar y dyddiadau ym mharagraffau (3) a (4) yn gymwys mewn perthynas â disgyblion mewn dosbarthiadau meithrin neu ddosbarthiadau derbyn y mae'r awdurdod lleol yn eu hystyried o dan baragraff (1).

(6) Caiff awdurdod lleol ystyried yn ei fformiwla y ffactorau a nodir ym mharagraff (7) wrth benderfynu cyfrannau ysgolion o'r gyllideb ar gyfer—

(a) ysgolion arbennig, a

(b) ysgolion cynradd neu ysgolion uwchradd sydd â lleoedd ysgol y mae'r awdurdod lleol yn cydnabod eu bod wedi eu neilltuo ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol neu wedi eu neilltuo ar gyfer plant mewn dosbarthiadau meithrin ("lleoedd ysgol sydd wedi eu neilltuo").

(7) Y ffactorau y cyfeirir atynt ym mharagraff (6) yw—

(a) nifer y disgyblion cofrestredig yn yr ysgolion arbennig hynny ar y dyddiad neu'r dyddiadau y penderfynir arno neu arnynt yn unol â pharagraff (1), a

(b) nifer y disgyblion yn y lleoedd ysgol sydd wedi eu neilltuo mewn ysgolion cynradd neu ysgolion uwchradd ar y dyddiad neu'r dyddiadau y penderfynir arno neu arnynt yn unol â pharagraff (1).

(8) Yn ddarostyngedig i baragraff (9), caiff awdurdod lleol benderfynu nifer sy'n cynrychioli nifer y disgyblion a fydd yn cael eu derbyn yn nhymor yr haf, ac ystyried y nifer hwnnw yn ei fformiwla—

(a) pan fo ysgol a gynhelir yn gweithredu polisi o dderbyn plant i ddosbarthiadau meithrin neu ddosbarthiadau derbyn yn nhymor yr haf hwnnw, a

(b) pan fydd yr ysgol a gynhelir honno yn derbyn disgyblion i ddosbarthiadau o'r fath yn nhymor yr haf yn union ar ôl y dyddiad neu'r dyddiadau y penderfynir arno neu arnynt yn unol â pharagraff (1).

(9) O ran awdurdod lleol, wrth iddo benderfynu nifer y disgyblion y bydd yn ei ystyried o dan baragraff (8)—

(a) ni chaiff benderfynu unrhyw nifer sy'n fwy na nifer y disgyblion a dderbyniwyd yn nhymor yr haf yn union cyn y dyddiad neu'r dyddiadau y penderfynir arno neu arnynt yn unol â pharagraff (1), a

(b) rhaid iddo wneud unrhyw benderfyniad o'r fath cyn dechrau'r cyfnod cyllido y bydd y disgyblion yn cael eu derbyn ynddo.

(10) Rhaid i awdurdod lleol gynnwys darpariaeth yn ei fformiwla sy'n ei alluogi i addasu nifer y disgyblion cofrestredig a ddefnyddir i benderfynu cyfran ysgol o'r gyllideb, pan fo'n briodol gwneud hynny, er mwyn ystyried, yn gyfan gwbl neu'n rhannol—

(a) gwaharddiad parhaol disgybl o'r ysgol a gynhelir, neu

(b) derbyn disgybl yn dilyn gwaharddiad parhaol y disgybl hwnnw o ysgol arall a gynhelir gan awdurdod lleol.

Gofynion pellach yn ymwneud â chyllido disgyblion

16.—(1) Wrth benderfynu ac ailbenderfynu cyfran ysgol o'r gyllideb, caiff awdurdod lleol bwysoli unrhyw gyllid y mae'n ei ddarparu fesul disgybl yn unol ag unrhyw un neu ragor, neu bob un, o'r ffactorau a ganlyn fel y mae, neu fel y maent, ar y dyddiad neu'r dyddiadau a benderfynir yn unol â rheoliad 15(1)—

(a) oedran disgyblion, gan gynnwys yn ôl grŵp blwyddyn;

(b) a yw disgybl yn cael addysg feithrin gan ysgol a gynhelir;

(c) yn achos disgyblion o dan bump oed, eu hunion oedran wrth gael eu derbyn i'r ysgol a gynhelir;

(d) yn achos disgyblion o dan bump oed, yr oriau y maent yn bresennol;

(e) anghenion dysgu ychwanegol;

(f) a yw disgybl mewn ysgol a gynhelir yn mynychu sefydliad addysg bellach hefyd;

(g) a yw disgybl yn cael ei addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

(2) Yn y rheoliad hwn, mae i "sefydliad addysg bellach" yr ystyr a roddir i "further education institution" yn adran 140 o Ddeddf 2002(**43**).

Niferoedd disgyblion: cofrestru deuol

17.—(1) Pan fo disgybl yn ddisgybl â chofrestriad deuol, rhaid trin y disgybl hwnnw fel pe bai'n ddisgybl llawnamser ym mhob ysgol a gynhelir oni bai bod yr awdurdod lleol yn darparu'n benodol fel arall yn ei fformiwla.

(2) Yn y rheoliad hwn, ystyr "disgybl â chofrestriad deuol" yw disgybl sydd wedi ei gofrestru mewn mwy nag un ysgol a gynhelir yn unol â rheoliadau a wneir o dan adran 434 o Ddeddf 1996(**44**).

Lleoedd ysgol

18.—(1) Wrth benderfynu ac ailbenderfynu cyfrannau ysgolion o'r gyllideb, caiff awdurdod lleol ystyried yn ei fformiwla nifer y lleoedd ysgol y mae'n dymuno eu cyllido mewn—

(a) ysgolion arbennig,

(**43**) Diwygiwyd adran 140 gan baragraff 6 o'r Atodlen i Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015 (dccc 1), a chan O.S. 2010/1158. Diwygiwyd adran 140 hefyd gan Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022, Atodlen 4, paragraff 15(4), ond ar ddyddiad gwneud y Rheoliadau hyn, nid yw'r diwygiadau hynny mewn grym eto.

(**44**) Diwygiwyd adran 434 gan Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998, Atodlen 30, paragraff 111, ac Atodlen 31, a chan O.S. 2010/1158.

(b) ysgolion cynradd neu ysgolion uwchradd sydd â lleoedd ysgol y mae'r awdurdod lleol yn cydnabod eu bod wedi eu neilltuo ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol,

(c) ysgolion a gynhelir sydd â lleoedd ysgol y mae'r awdurdod lleol yn cydnabod eu bod wedi eu neilltuo ar gyfer plant mewn dosbarth meithrin, a

(d) ysgolion meithrin a gynhelir.

(2) Wrth benderfynu ac ailbenderfynu cyfrannau ysgolion o'r gyllideb, caiff awdurdod lleol ystyried yn ei fformiwla natur unrhyw anghenion dysgu ychwanegol pan fydd yn cyllido—

(a) lleoedd ysgol mewn ysgolion arbennig, a

(b) lleoedd ysgol y mae'r awdurdod lleol yn cydnabod eu bod wedi eu neilltuo ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol mewn ysgolion cynradd neu ysgolion uwchradd.

(3) Rhaid i awdurdod lleol ddarparu, os bydd unrhyw leoedd ysgol mewn ysgolion arbennig yn cael eu hystyried yn unol â pharagraff (1), na chaiff y nifer fod yn llai na nifer y disgyblion cofrestredig yn yr ysgol ar y dyddiad neu'r dyddiadau y penderfynir arno neu arnynt yn unol â rheoliad 15(1).

Ysgolion o ddisgrifiad penodol

19.—(1) Pan fo awdurdod lleol yn didynnu o'i gyllideb ysgolion wariant cynlluniedig sy'n ymwneud ag ysgolion a gynhelir o ddisgrifiad penodol, rhaid iddo gynnwys ffactorau neu feini prawf yn ei fformiwla mewn cysylltiad â'r gwariant cynlluniedig hwnnw, mewn perthynas ag ysgolion a gynhelir nad ydynt yn dod o fewn y disgrifiad hwnnw.

(2) Yn y rheoliad hwn, mae cyfeiriad at "ysgolion o ddisgrifiad penodol" yn cynnwys disgrifiad o un neu ragor o ysgolion a gynhelir drwy gyfeirio at eu categori ysgol, y math o ddarpariaeth addysgol a wneir gan yr ysgolion neu unrhyw ddisgrifiad arall y mae'r awdurdod lleol yn ystyried ei fod yn briodol.

Cyllid gwahaniaethol

20. Ni chaiff awdurdod lleol ddefnyddio yn ei fformiwla unrhyw ffactorau neu feini prawf sy'n gwahaniaethu rhwng ysgolion a gynhelir drwy gyfeirio at eu categori ysgol, ac eithrio pan fo gwahaniaethau yn swyddogaethau cyrff llywodraethu ysgolion o wahanol gategorïau yn cyfiawnhau gwahaniaethu o'r fath.

Ffactorau neu feini prawf ychwanegol

21.—(1) Yn ddarostyngedig i reoliadau 19 ac 20, caiff awdurdod lleol, wrth benderfynu cyfrannau ysgolion o'r gyllideb, ystyried yn ei fformiwla unrhyw ffactorau neu unrhyw feini prawf y mae'n ystyried eu bod yn briodol.

(2) Ni chaiff awdurdod lleol, wrth benderfynu cyfrannau ysgolion o'r gyllideb, leihau'r cyfrannau hynny mewn cysylltiad ag unrhyw incwm arall a gaiff ysgol a gynhelir.

(3) Rhaid i awdurdod lleol ystyried, wrth benderfynu cyfrannau ysgolion o'r gyllideb, a fyddai cyfran o'r gyllideb ar gyfer ysgol a gynhelir yn cael ei lleihau mwy na 5% fel arall mewn dwy flynedd olynol.

(4) Pan fo awdurdod lleol yn penderfynu, yn unol â pharagraff (3), fod cyfrannau'r ysgol o'r gyllideb ar gyfer ysgol a gynhelir y mae'n ei chynnal wedi lleihau mwy na 5% mewn dwy flynedd olynol a bo'n penderfynu cynyddu'r cyllid ar gyfer yr ysgol honno er mwyn

mynd i'r afael â'r lleihad hwnnw, rhaid iddo gynyddu'r cyllid yn unol â graddfa a gyhoeddir gan yr awdurdod lleol yn ei gynllun ariannol.

(5) Rhaid i awdurdod lleol, wrth benderfynu cyfrannau'r ysgol o'r gyllideb ar gyfer yr ysgolion cynradd a'r ysgolion uwchradd y mae'n eu cynnal, gynnwys yn ei fformiwla ffactor neu ffactorau sy'n seiliedig ar fynychder amddifadedd cymdeithasol ("y ffactor amddifadedd cymdeithasol") ymhlith disgyblion sydd wedi eu cofrestru yn yr ysgol a gynhelir.

(6) Mae mynychder amddifadedd cymdeithasol mewn ysgol a gynhelir i'w benderfynu drwy ystyried o leiaf un o'r meini prawf a ganlyn—

(a) nifer y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, neu

(b) preswyliad disgyblion mewn perthynas â Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru.

(7) Ni chaiff y swm y penderfynir arno mewn cysylltiad â'r ffactor amddifadedd cymdeithasol o dan baragraff (6)—

(a) cynnwys unrhyw gyllid a ddyrannwyd neu sydd i'w ddyrannu mewn cysylltiad â darparu prydau ysgol am ddim i'r disgyblion hynny sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, neu

(b) cynnwys unrhyw gyllid a ddyrannwyd neu sydd i'w ddyrannu ar gyfer cefnogi disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol.

(8) Pan fo awdurdod lleol, o dan y rheoliad hwn, yn ystyried ffactorau neu feini prawf newydd yn ei fformiwla, neu'n dileu ffactorau o'i fformiwla neu'n penderfynu fformiwla sy'n sylweddol wahanol neu'n gyfan gwbl wahanol i fformiwla'r cyfnod cyllido blaenorol, caiff wneud unrhyw ddarpariaeth drosiannol y mae'n ystyried ei bod yn rhesymol.

Cyllid ar gyfer disgyblion dros oedran ysgol gorfodol

22.—(1) Yn ddarostyngedig i reoliad 25, rhaid i gyfran ysgol o'r gyllideb ar gyfer ysgol uwchradd neu ysgol arbennig sy'n darparu addysg addas ar gyfer gofynion personau dros oedran ysgol gorfodol gynnwys swm ("y Swm") mewn cysylltiad â disgyblion yr ysgol honno sydd dros oedran ysgol gorfodol.

(2) Rhaid i'r Swm gynnwys, ar sail net—

(a) dyraniad gan yr awdurdod lleol mewn cysylltiad â darpariaeth yr ysgol honno ar gyfer disgyblion dros oedran ysgol gorfodol yn unol ag amodau Grant gan y Comisiwn, a

(b) unrhyw swm y mae'r awdurdod lleol yn ei ddarparu ar gyfer addysg disgyblion dros oedran ysgol gorfodol.

(3) I'r graddau nad yw'r Swm yn ddarostyngedig i'r amodau mewn Grant gan y Comisiwn, rhaid i awdurdod lleol, wrth benderfynu cyfrannau ysgolion o'r gyllideb, ddefnyddio ffactor sy'n dyrannu cyllid mewn cysylltiad â disgyblion dros oedran addysg gorfodol.

(4) Rhaid ailbenderfynu cyfran ysgol o'r gyllideb ar gyfer cyfnod cyllido cyn diwedd y cyfnod cyllido hwnnw pan fo'r awdurdod lleol yn cael hysbysiad ysgrifenedig gan y Comisiwn am ddyraniad o Grant gan y Comisiwn neu ddyraniad diwygiedig o Grant gan y Comisiwn.

Ad-drefnu ysgol

23.—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys i ysgol a gynhelir ("ysgol berthnasol") sydd—

(a) yn ysgol newydd,

(b) yn ysgol a gynhelir, heblaw ysgol newydd, nad yw cynigion ar gyfer ei sefydlu o dan unrhyw ddeddfiad wedi eu gweithredu'n llawn,

(c) yn ysgol a gynhelir sy'n destun cynigion ar gyfer newid rhagnodedig o dan Bennod 2 o Ran 3 o Ddeddf 2013, a

(d) yn ysgol feithrin a gynhelir sydd i'w therfynu yn y cyfnod cyllido o dan sylw.

(2) Rhaid i awdurdod lleol gynnwys ffactorau neu feini prawf yn ei fformiwla ar gyfer cyfran yr ysgol o'r gyllideb sy'n ei alluogi i benderfynu cyfran yr ysgol o'r gyllideb er mwyn ystyried anghenion penodol ysgolion perthnasol.

(3) Caiff y ffactorau neu'r meini prawf y cyfeirir atynt ym mharagraff (2), os yw'r cyfnod cyllido o dan sylw yn dod cyn y cyfnod cyllido y mae ysgol berthnasol yn derbyn disgyblion gyntaf ynddo, benderfynu mai sero yw swm cyfran yr ysgol o'r gyllideb.

(4) At ddibenion y rheoliad hwn, mae cynigion ar gyfer sefydlu ysgol a gynhelir wedi eu gweithredu'n llawn pan fydd nifer y disgyblion a dderbyniwyd i'r ysgol ym mhob grŵp blwyddyn wedi cyrraedd, ym marn yr awdurdod lleol—

(a) y nifer hwnnw o ddisgyblion a nodwyd, pan gyhoeddwyd cynigion ar gyfer sefydlu'r ysgol, fel nifer y disgyblion i'w derbyn i bob grŵp oedran ar ôl i'r cynigion gael eu gweithredu'n llawn, neu

(b) os na nodwyd nifer o'r fath, unrhyw nifer a benderfynir gan yr awdurdod.

Ysgolion ffederal

24.—(1) Yn ddarostyngedig i baragraffau (2) a (3), pan fo dwy neu ragor o ysgolion a gynhelir wedi eu ffedereiddio o dan adran 10 o Fesur 2011, rhaid i'r awdurdod lleol benderfynu cyfran ysgol o'r gyllideb ar gyfer pob ysgol yn unol â Rhan 3 o'r Rheoliadau hyn.

(2) Ar ôl gwneud y penderfyniad ym mharagraff (1), rhaid i'r awdurdod lleol ddyrannu un gyfran ysgol o'r gyllideb i gorff llywodraethu'r ffederasiwn a thrin yr ysgolion fel un ysgol at y diben hwnnw—

(a) pan fo corff llywodraethu'r ffederasiwn yn gofyn am un gyfran ysgol o'r gyllideb, a

(b) pan fo'r awdurdod lleol yn ystyried bod gan y corff llywodraethu y gallu i reoli un gyfran ysgol o'r gyllideb.

(3) Pan fo'r awdurdod lleol yn dyrannu un gyfran ysgol o'r gyllideb i gorff llywodraethu ffederasiwn o dan baragraff (2), rhaid iddo benderfynu'r gyfran drwy gyfuno cyfrannau'r ysgol o'r gyllideb ar gyfer yr holl ysgolion a gynhelir sy'n ffurfio rhan o'r ffederasiwn hwnnw.

(4) Pan fo un neu ragor o ysgolion a gynhelir am ymadael â ffederasiwn ("yr ysgolion sy'n ymadael") y dyrannwyd un gyfran ysgol o'r gyllideb iddo o dan baragraff (2), rhaid i'r awdurdod lleol—

(a) yn unol â Rhan 3 o'r Rheoliadau hyn, benderfynu cyfran yr ysgol o'r gyllideb ar gyfer pob un o'r ysgolion sy'n ymadael,

(b) yn unol â Rhan 3 o'r Rheoliadau hyn, ailbenderfynu cyfran yr ysgol o'r gyllideb ar gyfer y ffederasiwn, ac

(c) pan fo gan ffederasiwn warged neu ddiffyg yn union cyn i'r ysgolion ymadael â'r ffederasiwn, ddosrannu'r gwarged neu'r diffyg hwnnw rhwng y ffederasiwn a'r ysgolion sy'n ymadael fel y gwêl yn dda.

(5) Yn y rheoliad hwn—

mae i “ffederasiwn” (“*federation*”) yr ystyr a roddir iddo yn adran 21(1) o Fesur 2011;

mae i “ysgol ffederal” (“*federated school*”) yr ystyr a roddir iddo yn adran 21(1) o Fesur 2011.

Addasu cyfran ysgolion o’r gyllideb

25.—(1) Mae’r paragraff hwn yn gymwys pan fo cyfran ysgol o’r gyllideb ar gyfer y cyfnod cyllido cyfredol—

(a) wedi ei phenderfynu drwy gyfeirio at amcangyfrif o nifer y disgyblion cofrestredig yn yr ysgol a gynhelir ar y dyddiad neu’r dyddiadau y penderfynwyd arno neu arnynt yn unol â rheoliad 15(1), a

(b) na fo gwahaniaethau rhwng nifer amcangyfrifedig y disgyblion ar y dyddiad neu’r dyddiadau y penderfynwyd arno neu arnynt yn unol â rheoliad 15(1) a nifer gwirioneddol y disgyblion yn yr ysgol a gynhelir ar y dyddiad hwnnw neu’r dyddiadau hynny wedi eu hystyried wrth ailbenderfynu cyfran yr ysgol o’r gyllideb ar gyfer y cyfnod cyllido hwnnw.

(2) Pan fo paragraff (1) yn gymwys, rhaid i’r awdurdod lleol benderfynu cyfran yr ysgol honno o’r gyllideb ar gyfer y cyfnod cyllido yn union ar ôl y cyfnod cyllido cyfredol, er mwyn ystyried y gwahaniaethau hynny.

(3) Caiff awdurdod lleol benderfynu cyfran ysgol o’r gyllideb ar gyfer cyfnod cyllido er mwyn ystyried unrhyw newid arall, yn ystod y cyfnod cyllido blaenorol, yn y data y cyfeiriwyd ato wrth benderfynu cyfran yr ysgol o’r gyllideb ar gyfer y cyfnod cyllido blaenorol, os nad ystyriwyd y newidiadau hynny wrth ailbenderfynu cyfran yr ysgol o’r gyllideb ar gyfer y cyfnod cyllido blaenorol hwnnw.

(4) Caiff awdurdod lleol addasu nifer y disgyblion cofrestredig a ddefnyddir i benderfynu cyfran ysgol o’r gyllideb ar gyfer cyfnod cyllido pan fo’n briodol gwneud hynny er mwyn ystyried, yn gyfan gwbl neu’n rhannol—

(a) unrhyw leihad neu gynnydd yng nghyfran yr ysgol o’r gyllideb ar gyfer y cyfnod cyllido blaenorol sy’n codi o wahardd disgybl yn barhaol o’r ysgol a gynhelir neu dderbyn i’r ysgol a gynhelir ddisgybl a waharddwyd yn barhaol o ysgol arall a gynhelir, neu

(b) unrhyw gynnydd yng nghyfran yr ysgol o’r gyllideb ar gyfer y cyfnod cyllido blaenorol sy’n codi o gynnydd yn nifer y disgyblion yn ystod y cyfnod cyllido hwnnw.

(5) Rhaid i awdurdod lleol gynnwys ffactorau neu feini prawf yn ei fformiwla sy’n bodloni gofynion y rheoliad hwn.

Disgyblion a waharddwyd yn barhaol neu a dderbyniwyd yn dilyn gwaharddiad parhaol

26.—(1) Pan fo disgybl yn cael ei wahardd yn barhaol gan awdurdod lleol o ysgol a gynhelir yn ystod cyfnod cyllido, rhaid i’r awdurdod lleol ailbenderfynu cyfran yr ysgol o’r gyllideb ar gyfer y cyfnod cyllido hwnnw yn unol â pharagraff (2).

(2) Mae cyfran yr ysgol o’r gyllideb i’w lleihau gan swm A × (B/52)—

(a) pan fo A yn cynrychioli’r swm, yn y cyfnod cyllido y mae’r gwaharddiad parhaol yn cymryd effaith ynddo, y penderfynir arno gan yr awdurdod lleol yn unol â’r Rheoliadau hyn sydd i’w briodoli ar gyfer y cyfnod cyllido llawn i ddisgybl cofrestredig sydd o’r un oedran ac sydd â’r un amgylchiadau personol â’r disgybl

o dan sylw mewn ysgolion cynradd neu ysgolion uwchradd a gynhelir gan yr awdurdod lleol, a

(b) yn ddarostyngedig i baragraff (4), pan fo B yn cynrychioli nifer yr wythnosau cyflawn sydd ar ôl yn y cyfnod cyllido, o'u cyfrifo o'r dyddiad perthnasol.

(3) At ddibenion paragraff (2)(a), y swm sydd i'w briodoli i ddisgybl cofrestredig yw cyfanswm y symiau a benderfynwyd yn unol â fformiwla yr awdurdod lleol neu reoliad 28 drwy gyfeirio at niferoedd disgyblion yn hytrach na thrwy gyfeirio at nifer y lleoedd ysgol yn yr ysgol a gynhelir neu unrhyw ffactor neu faen prawf arall nad yw'n dibynnu ar niferoedd disgyblion.

(4) Pan fo'r gwaharddiad parhaol yn cymryd effaith ar neu ar ôl 1 Ebrill mewn blwyddyn ysgol y mae disgyblion o'r un oedran neu o'r un grŵp blwyddyn â'r disgybl o dan sylw fel arfer yn ymadael â'r ysgol a gynhelir honno ar ei diwedd, cyn cael eu derbyn i ysgol arall a chanddi ddisgyblion o ystod oedran gwahanol, B yw nifer yr wythnosau cyflawn sydd ar ôl yn y flwyddyn ysgol honno, o'u cyfrifo o'r dyddiad perthnasol.

(5) Pan fo disgybl sydd wedi ei wahardd yn barhaol o ysgol a gynhelir yn cael ei dderbyn, yn ystod yr un cyfnod cyllido, i ysgol a gynhelir gan yr awdurdod lleol ("yr ysgol a gynhelir sy'n derbyn"), rhaid i'r awdurdod lleol ailbenderfynu cyfran yr ysgol sy'n derbyn o'r gyllideb yn unol â pharagraff (6).

(6) Mae cyfran yr ysgol o'r gyllideb i'w chynyddu gan swm na chaniateir iddo fod yn llai na'r swm D × (E/F)—

(a) pan fo D yn cynrychioli'r swm y mae'r awdurdod lleol yn ei ddefnyddio i leihau cyfran yr ysgol o'r gyllideb ar gyfer yr ysgol a gynhelir y gwaharddwyd y disgybl yn barhaol ohoni, neu y byddai wedi ei ddefnyddio i leihau'r gyfran pe bai'r ysgol wedi ei chynnal gan yr awdurdod lleol,

(b) pan fo E yn cynrychioli nifer yr wythnosau cyflawn sydd ar ôl yn y cyfnod cyllido y mae'r disgybl yn ddisgybl cofrestredig ynddo yn yr ysgol a gynhelir sy'n derbyn, ac

(c) pan fo F yn cynrychioli nifer yr wythnosau cyflawn sydd ar ôl yn y cyfnod cyllido, o'u cyfrifo o'r dyddiad perthnasol.

(7) Pan fo disgybl sydd wedi ei wahardd yn barhaol yn cael ei dderbyn yn ôl wedyn gan gorff llywodraethu'r ysgol a gynhelir neu gan banel apêl a gyfansoddwyd o dan reoliadau a wnaed o dan adran 52 o Ddeddf 2002, rhaid cynyddu cyfran yr ysgol o'r gyllideb gan swm nad yw'n llai nag G × (H/I)—

(a) pan fo G yn cynrychioli'r swm y mae'r awdurdod lleol wedi ei ddefnyddio i leihau cyfran yr ysgol o'r gyllideb,

(b) pan fo H yn cynrychioli nifer yr wythnosau cyflawn sydd ar ôl yn y cyfnod cyllido y mae'r disgybl yn cael ei dderbyn yn ôl ynddo, ac

(c) pan fo I yn cynrychioli nifer yr wythnosau cyflawn sydd ar ôl yn y cyfnod cyllido, o'u cyfrifo o'r dyddiad perthnasol.

(8) Mae paragraffau (1) a (2) hefyd yn gymwys pan fo disgybl—

(a) yn ymadael ag ysgol a gynhelir am resymau heblaw gwaharddiad parhaol, a

(b) yn cael addysg a gyllidir gan awdurdod lleol heblaw mewn ysgol a gynhelir gan yr awdurdod lleol hwnnw.

(9) Yn y rheoliad hwn, mae i "y dyddiad perthnasol" yr ystyr a ragnodir ar gyfer "the relevant date" mewn rheoliadau a wneir o dan adran 494 o Ddeddf 1996(**45**).

Cywiro gwallau

27. Caiff awdurdod lleol, ar unrhyw adeg yn ystod cyfnod cyllido, ailbenderfynu cyfran ysgol o'r gyllideb ar gyfer y cyfnod cyllido hwnnw er mwyn cywiro gwall mewn penderfyniad neu ailbenderfyniad o dan y Rheoliadau hyn, pa un a yw'n codi o gamgymeriad o ran nifer y disgyblion cofrestredig yn yr ysgol a gynhelir neu fel arall.

Trefniadau a gymeradwywyd gan Weinidogion Cymru

28. Caiff Gweinidogion Cymru, pan fo'n ymddangos iddynt ei bod yn hwylus gwneud hynny, awdurdodi awdurdod lleol i benderfynu neu ailbenderfynu cyfran ysgol o'r gyllideb—

(a) ar unrhyw adeg,

(b) i'r graddau a bennir ganddynt, ac

(c) yn unol â threfniadau a gymeradwywyd ganddynt yn lle'r trefniadau y darperir ar eu cyfer mewn mannau eraill yn y Rheoliadau hyn.

RHAN 4

Cynlluniau Ariannol

Yr hyn y mae'n ofynnol ei gynnwys mewn cynlluniau

29. Rhaid i gynllun ariannol ymdrin â'r materion a nodir yn Atodlen 4, sy'n gysylltiedig ag ariannu ysgolion y mae'r awdurdod lleol yn eu cynnal.

Y dull o gyhoeddi a'r amserlen

30.—(1) At ddibenion paragraff 1(7) o Atodlen 14 i Ddeddf 1998 (y dull rhagnodedig o gyhoeddi cynlluniau ariannol) rhaid i awdurdod lleol, heb fod yn hwyrach na'r dyddiad y daw'r cynllun ariannol i rym, gyhoeddi'r cynllun ariannol yn rhad ac am ddim ar wefan a gynhelir gan yr awdurdod lleol ac sy'n hygyrch i'r cyhoedd yn gyffredinol.

(2) Rhaid i'r awdurdod lleol anfon copi electronig o'r cynllun ariannol i gorff llywodraethu, ac at bennaeth, pob ysgol a gynhelir gan yr awdurdod lleol.

(3) Pryd bynnag y bydd awdurdod lleol yn diwygio'r cyfan neu ran o'i gynllun ariannol, rhaid iddo gyhoeddi'r cynllun ariannol fel y'i diwygiwyd yn unol â pharagraffau (1) a (2) heb fod yn hwyrach na'r dyddiad y mae'r diwygiadau i ddod i rym, ynghyd â datganiad bod y cynllun ariannol diwygiedig yn dod i rym ar y dyddiad hwnnw.

Y fforwm ysgolion neu Weinidogion Cymru yn cymeradwyo cynigion i ddiwygio cynlluniau ariannol

31.—(1) Pan fo awdurdod lleol yn cyflwyno cynigion i wneud unrhyw ddiwygiadau i'w gynllun ariannol i'w fforwm ysgolion i'w cymeradwyo o dan baragraff 2A o Atodlen 14 i Ddeddf 1998(**46**) ("diwygiadau arfaethedig"), caiff y fforwm ysgolion—

(**45**) Amnewidiwyd adran 494 gan Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998, Atodlen 30, paragraff 128, ac fe'i diwygiwyd gan Ddeddf Addysg 2005, Atodlen 18, paragraff 5, a chan O.S. 2010/1158. Y Rheoliadau cyfredol yw O.S. 1999/495.

(**46**) Rhoddwyd paragraff 2A yn lle paragraff 2, fel y'i deddfwyd yn wreiddiol, gan Ddeddf Addysg ac Arolygiadau 2006, Atodlen 5, paragraff 5(5), ac fe'i diwygiwyd gan Ddeddf Addysg 2011, adran 46, a chan O.S. 2010/1158.

(a) cymeradwyo unrhyw ddiwygiadau arfaethedig,

(b) cymeradwyo unrhyw ddiwygiadau arfaethedig yn ddarostyngedig i addasiadau y caiff y fforwm ysgolion eu gwneud, neu

(c) gwrthod cymeradwyo unrhyw ddiwygiadau arfaethedig.

(2) Pan fo'r fforwm ysgolion yn cymeradwyo unrhyw ddiwygiadau arfaethedig, caiff bennu'r dyddiad y mae unrhyw ddiwygiadau arfaethedig i ddod i rym arno.

(3) Caiff yr awdurdod lleol wneud cais i Weinidogion Cymru am gymeradwyaeth ar gyfer unrhyw ddiwygiadau arfaethedig pan fo'r fforwm ysgol—

(a) yn gwrthod cymeradwyo'r diwygiadau arfaethedig, neu

(b) yn cymeradwyo'r diwygiadau arfaethedig yn ddarostyngedig i addasiadau nad ydynt yn dderbyniol i'r awdurdod lleol.

(4) Caiff Gweinidogion Cymru—

(a) cymeradwyo unrhyw ddiwygiadau arfaethedig,

(b) cymeradwyo unrhyw ddiwygiadau arfaethedig yn ddarostyngedig i addasiadau y caiff Gweinidogion Cymru eu gwneud, neu

(c) gwrthod cymeradwyo unrhyw ddiwygiadau arfaethedig.

(5) Pan fo Gweinidogion Cymru yn cymeradwyo unrhyw ddiwygiadau arfaethedig, cânt bennu'r dyddiad y mae unrhyw ddiwygiadau arfaethedig i ddod i rym arno.

(6) Ni chaiff unrhyw ddiwygiadau arfaethedig ddod i rym oni bai eu bod wedi eu cymeradwyo gan y fforwm ysgolion neu gan Weinidogion Cymru yn unol â'r rheoliad hwn.

RHAN 5

Datganiadau Cyllideb

Ffurf ragnodedig datganiadau cyllideb

32.—(1) Rhaid llunio datganiad cyllideb mewn 2 ran.

(2) Rhaid cwblhau Rhan 1 o ddatganiad cyllideb—

(a) mewn cysylltiad â gwariant cynlluniedig yr awdurdod lleol ar gyfer pob ysgol a gynhelir ganddo ar gyfer y cyfnod cyllido y mae'r datganiad cyllideb yn ymwneud ag ef, a

(b) yn unol ag Atodlen 5.

(3) Rhaid cwblhau Rhan 2 o ddatganiad cyllideb—

(a) mewn cysylltiad â fformiwla yr awdurdod lleol ar gyfer y cyfnod cyllido y mae'r datganiad cyllideb yn ymwneud ag ef, a

(b) yn unol ag Atodlen 6.

(4) Pan fo person yn cyflawni swyddogaethau ar ran awdurdod lleol, rhaid i'r awdurdod lleol gynnwys gwybodaeth yn Rhan 1 a Rhan 2 o'r datganiad cyllideb fel pe bai gwariant gan y person hwnnw wrth gyflawni'r swyddogaethau hynny yn wariant gan yr awdurdod lleol.

Y dull o gyhoeddi datganiadau cyllideb

33.—(1) At ddibenion adran 52(3)(b) o Ddeddf 1998, rhaid i bob datganiad cyllideb gael ei gyhoeddi drwy—

(a) darparu copi i Weinidogion Cymru drwy e-bost, a

(b) rhoi copi ar gael yn rhad ac am ddim ar wefan a gynhelir gan yr awdurdod lleol ac sy'n hygyrch i'r cyhoedd.

(2) Rhaid i unrhyw iaith neu feddalwedd gyfrifiadurol a ddefnyddir i ddarparu'r datganiad cyllideb fod yn un y mae Gweinidogion Cymru wedi hysbysu'r awdurdod lleol amdani.

(3) Ar yr un adeg ag y mae'n cyhoeddi datganiad cyllideb yn unol â'r rheoliad hwn, rhaid i'r awdurdod lleol ddarparu copi o Rhan 1 a Rhan 2 o'r datganiad cyllideb i gorff llywodraethu a phennaeth pob ysgol a gynhelir ganddo.

Yr amserlen ar gyfer cyhoeddi datganiadau cyllideb

34.—(1) Rhaid cyhoeddi datganiad cyllideb cyn dechrau'r cyfnod cyllido y mae'n ymwneud ag ef.

(2) Ni chaniateir diwygio datganiad cyllideb yn ystod y cyfnod cyllido y mae'n ymwneud ag ef heblaw i gywiro gwallau yn y datganiad fel y'i cyhoeddwyd yn flaenorol.

(3) Mae datganiad cyllideb diwygiedig yn ddarostyngedig i reoliadau 32 a 33, a pharagraff (2) o'r rheoliad hwn.

(4) Nid oes dim yn y rheoliad hwn yn ei gwneud yn ofynnol llunio fersiwn ddiwygiedig o'r testun Cymraeg os yw'r gwallau yn y testun Saesneg yn unig, ac i'r gwrthwyneb.

RHAN 6

Datganiadau Alldro

Ffurf datganiadau alldro

35.—(1) Rhaid llunio datganiad alldro yn Gymraeg ac yn Saesneg.

(2) Rhaid i ddatganiad alldro gynnwys—

(a) pennawd ar frig y dudalen gyntaf sy'n nodi mai datganiad alldro ydyw,

(b) enw'r awdurdod lleol a luniodd y datganiad,

(c) y cyfnod cyllido y mae'n ymwneud ag ef, a

(d) cyfeirnod unedol yr awdurdod lleol.

Gwybodaeth ar gyfer datganiadau alldro

36. Rhaid i awdurdod lleol gynnwys mewn datganiad alldro ar gyfer pob ysgol a gynhelir ganddo—

(a) swm cyfran yr ysgol o'r gyllideb ar gyfer y cyfnod cyllido y mae'r datganiad alldro yn ymwneud ag ef ac sydd wedi ei gynnwys yn Rhan 1 o ddatganiad cyllideb yr awdurdod lleol,

(b) manylion unrhyw gynnydd neu leihad yng nghyfran yr ysgol o'r gyllideb yn ystod y flwyddyn o ganlyniad i unrhyw ailbenderfyniad ynghylch ei chyfran o'r gyllideb o dan y Rheoliadau hyn,

(c) manylion unrhyw symiau a ddyrannwyd i'r ysgol a gynhelir nad ydynt yn dod o fewn paragraff (a) neu (b),

(d) y cyfanswm a ddyrannwyd i'r ysgol a gynhelir gan yr awdurdod lleol yn y cyfnod cyllido hwnnw,

(e) y balans a ddygwyd ymlaen o'r cyfnod cyllido blaenorol mewn cysylltiad ag unrhyw warged neu ddiffyg yng nghyfran yr ysgol o'r gyllideb mewn unrhyw gyfnod cyllido blaenorol,

(f) y swm sydd i'w gario ymlaen i'r cyfnod cyllido dilynol mewn cysylltiad ag unrhyw warged neu ddiffyg yng nghyfran yr ysgol o'r gyllideb ar gyfer y cyfnod cyllido hwnnw neu unrhyw gyfnod cyllido blaenorol,

(g) cyfanswm y gwariant a briodolwyd i'r ysgol a gynhelir, sy'n deillio o adio'r gwahaniaeth rhwng y swm y cyfeirir ato ym mharagraff (e) a'r swm y cyfeirir ato ym mharagraff (f) at y cyfanswm a roddwyd ar gael i'r ysgol gan yr awdurdod lleol, ac

(h) unrhyw swm sy'n cael ei drin gan yr awdurdod lleol fel incwm a briodolwyd i'r ysgol a gynhelir ac nad yw'n cael ei adlewyrchu yn unrhyw un o'r symiau a bennir yn y datganiad alldro yn rhinwedd paragraffau (a) i (d).

Y dull o gyhoeddi datganiadau alldro

37.—(1) Rhaid i bob datganiad alldro gael ei gyhoeddi drwy—

(a) darparu copi i Weinidogion Cymru drwy e-bost, a

(b) rhoi copi ar gael yn rhad ac am ddim ar wefan a gynhelir gan yr awdurdod lleol ac sy'n hygyrch i'r cyhoedd.

(2) Rhaid i unrhyw iaith neu feddalwedd gyfrifiadurol a ddefnyddir i ddarparu'r datganiad alldro fod yn un y mae Gweinidogion Cymru wedi hysbysu'r awdurdod lleol amdani.

Yr amserlen ar gyfer cyhoeddi datganiadau alldro

38. Rhaid cyhoeddi datganiad alldro cyn 31 Gorffennaf ar ôl diwedd y cyfnod cyllido y mae'n ymwneud ag ef.

Anna Brychan
Y Gweinidog Cabinet dros Addysg a'r Gymraeg, un o Weinidogion Cymru
29 Mehefin 2026

YR ATODLENNI

ATODLEN 1

Rheoliad 2

Dirymiadau

Tabl dirymiadau

1. Mae'r deddfiadau a enwir yn y tabl wedi eu dirymu.

Enw	***Rhif***	***Graddau'r dirymu***
Rheoliadau Addysg (Datganiadau Cyllideb) (Cymru) 2002	O.S. 2002/122 (Cy. 16)	Yn llwyr
Rheoliadau Addysg (Datganiadau Alldro) (Cymru) 2003	O.S. 2003/873 (Cy. 109)	Yn llwyr
Rheoliadau Deddf Addysg 2002 (Darpariaethau Trosiannol a Diwygiadau Canlyniadol) (Cymru) 2005	O.S. 2005/2913 (Cy. 210)	Rheoliad 17
Rheoliadau Cyllido Ysgolion (Cymru) 2010	O.S. 2010/824 (Cy. 87)	Yn llwyr
Gorchymyn Awdurdodau Addysg Lleol ac Awdurdodau Gwasanaethau Plant (Integreiddio Swyddogaethau) (Is-ddeddfwriaeth) (Cymru) 2010	O.S. 2010/1142 (Cy. 101)	Paragraffau 7 a 19 o Atodlen 1
Rheoliadau Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (Diwygiadau Canlyniadol) 2021	O.S. 2021/296 (Cy. 73)	Rheoliad 11
Rheoliadau Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 (Diwygiadau Canlyniadol) (Is-ddeddfwriaeth) (Rhif 1) 2022	O.S. 2022/666 (Cy. 149)	Rheoliad 7
Rheoliadau Cyllido Ysgolion, Datganiadau Cyllideb a Datganiadau Alldro (Cymru) 2026	O.S.C. 2026/66	Yn llwyr

ATODLEN 2

Rheoliad 4(1)

Dosbarthau neu Ddisgrifiadau o Wariant Cynlluniedig a Ragnodir at Ddibenion Cyllideb Addysg Awdurdod Lleol nad yw ar gyfer Ysgolion

Dehongli

1. Yn yr Atodlen hon—

ystyr "cynllun llesiant lleol" ("*local well-being plan*") yw cynllun a gyhoeddir gan awdurdod lleol o dan adran 39, 44(5), neu 47(6) neu (11) o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015(**47**);

ystyr "Deddf 2000" ("*the 2000 Act*") yw Deddf Dysgu a Sgiliau 2000(**48**).

Anghenion dysgu ychwanegol

2. Gwariant ar wasanaethau a ddarperir gan seicolegwyr addysg.

3. Gwariant mewn cysylltiad â swyddogaethau'r awdurdod lleol o dan adrannau 13, 14(**49**), 18, 19, 20, 21, 22, 23, 24, 26, 27, 28, 30 a 32 o Ddeddf 2018 (swyddogaethau sy'n ymwneud â nodi ac asesu plant ag anghenion dysgu ychwanegol a llunio, cynnal ac adolygu cynlluniau datblygu unigol ar gyfer plant o'r fath).

4. Gwariant ar fonitro'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion mewn ysgolion, pa un a yw'r ysgolion hynny'n cael eu cynnal gan yr awdurdod lleol ai peidio, at ddibenion—

(a) lledaenu arferion da mewn perthynas â darpariaeth addysgol ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol, a

(b) gwella ansawdd darpariaeth addysgol ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol.

5. Gwariant ar gydweithio â chyrff statudol a gwirfoddol eraill i ddarparu cymorth ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol.

6. Gwariant mewn cysylltiad â darparu—

(a) gwybodaeth a chyngor o dan adran 9 o Ddeddf 2018 (cyngor a gwybodaeth), neu

(b) canllawiau eraill a gwybodaeth arall i rieni disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol sydd, mewn perthynas â disgyblion mewn ysgol a gynhelir gan yr awdurdod lleol, yn ychwanegol at yr wybodaeth a ddarperir fel arfer gan gyrff llywodraethu ysgolion o'r fath.

7. Gwariant mewn cysylltiad â threfniadau a wneir gan yr awdurdod lleol gyda golwg ar osgoi neu ddatrys anghytundebau gyda rhieni plant ag anghenion dysgu ychwanegol.

8. Gwariant yr eir iddo mewn perthynas â llunio unrhyw ran o gynllun llesiant lleol yr awdurdod lleol sy'n ymwneud ag addysg plant ag anawsterau ymddygiadol.

Iechyd ac amddiffyn plant

9. Gwariant ar gyflawni swyddogaethau'r awdurdod lleol o ran amddiffyn plant o dan Ddeddf Plant 1989(**50**), Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014(**51**), ac o dan adran 175 o Ddeddf 2002(**52**), a swyddogaethau eraill sy'n ymwneud ag amddiffyn plant.

(**47**) 2015 dccc 2. Diwygiwyd adran 39 gan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (dsc 1) ("Deddf 2021"), Atodlen 14, paragraff 1(4). Mewnosodwyd adran 47(5) i (13) gan Ddeddf 2021, adran 165(3).
(**48**) 2000 p. 21.
(**49**) Diwygiwyd adran 14 gan Ddeddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021, Atodlen 2, paragraffau 73 a 74.
(**50**) 1989 p. 41.
(**51**) 2014 dccc 4.
(**52**) Diwygiwyd adran 175 gan Ddeddf Addysg a Hyfforddiant (Lles Plant) 2021 (p. 16), adran 1(3) i (6), a chan O.S. 2010/1158.

10. Gwariant yr eir iddo wrth ymrwymo i drefniant o dan adran 33 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(**53**) (trefniadau rhwng cyrff y GIG ac awdurdodau lleol), neu yr eir iddo wedyn o dan drefniant o'r fath.

11.—(1) Gwariant wrth ddarparu cymorth meddygol arbennig ar gyfer disgyblion unigol, i'r graddau nad yw gwariant o'r fath yn cael ei dalu gan Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol, Ymddiriedolaeth Sefydledig Gwasanaeth Iechyd Gwladol, bwrdd gofal integredig, Bwrdd Iechyd Lleol neu Weinidogion Cymru.

(2) Yn y paragraff hwn—

ystyr "bwrdd gofal integredig" ("*integrated care board*") yw bwrdd gofal integredig a sefydlwyd o dan adran 14Z25 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 2006(**54**);

ystyr "Bwrdd Iechyd Lleol" ("*Local Health Board*") yw Bwrdd Iechyd Lleol a sefydlwyd o dan adran 11 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006;

ystyr "Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol" ("*National Health Service Trust*") yw ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol a sefydlwyd o dan adran 25 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 2006(**55**);

ystyr "Ymddiriedolaeth Sefydledig Gwasanaeth Iechyd Gwladol" ("*National Health Service Foundation Trust*") yw ymddiriedolaeth sefydledig Gwasanaeth Iechyd Gwladol a sefydlwyd o dan adran 30 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 2006(**56**).

Gwella ysgolion

12. Gwariant yr eir iddo gan yr awdurdod lleol mewn cysylltiad â chamau gweithredu i gefnogi gwella safonau mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol, gan gynnwys, yn benodol—

(a) gwariant yr eir iddo mewn cysylltiad ag arfer ei swyddogaethau o dan adran 197 o Ddeddf 2002(**57**) (cytundebau partneriaeth a datganiadau),

(b) gwariant yr eir iddo mewn cysylltiad ag arfer ei swyddogaethau o dan adrannau 3 i 9 o Ddeddf 2013 (pwerau awdurdod lleol i ymyrryd ym materion rhedeg ysgol a gynhelir), ac

(c) gwariant ar benodi aelodau gweithrediaeth interim o dan adran 7 o Ddeddf 2013 a thalu tâl cydnabyddiaeth iddynt.

Mynediad i addysg

13. Gwariant mewn perthynas â'r materion a ganlyn—

(a) rheoli rhaglen gyfalaf yr awdurdod lleol, gan gynnwys llunio ac adolygu cynllun rheoli asedau a negodi a rheoli trafodiadau cyllid preifat,

(b) swyddogaethau'r awdurdod lleol mewn perthynas â gwahardd disgyblion o ysgolion, gan gynnwys rhoi cyngor i rieni disgybl sydd wedi ei wahardd ond heb gynnwys gwneud unrhyw ddarpariaeth addysg i ddisgyblion o'r fath,

---

(**53**) 2006 p. 42.
(**54**) 2006 p. 41. Mewnosodwyd adran 14Z25 gan Ddeddf Iechyd a Gofal 2022 (p. 31), adran 19(2).
(**55**) Mae adran 25 wedi ei diddymu gan Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2012, adran 179(2), ond ar ddyddiad gwneud y Rheoliadau hyn, nid yw'r diddymiad hwnnw mewn grym eto.
(**56**) Diwygiwyd adran 30 gan Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2012 (p. 7), adran 159(1).
(**57**) Diwygiwyd adran 197 gan O.S. 2010/1158.

(c) gweinyddu'r system ar gyfer derbyn disgyblion i ysgolion, gan gynnwys apelau derbyn a chynnal ymgyngoriadau o dan adran 89(2) o Ddeddf 1998(**58**) (y weithdrefn ar gyfer penderfynu trefniadau derbyn),

(d) gwariant yr eir iddo mewn cysylltiad â swyddogaethau'r awdurdod lleol o dan adran 85A o Ddeddf 1998(**59**) (fforymau derbyn),

(e) swyddogaethau'r awdurdod lleol o dan Fesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008(**60**),

(f) swyddogaethau'r awdurdod lleol o dan adrannau 510(**61**) a 514(**62**) o Ddeddf 1996 (darparu grantiau dillad a grantiau byrddio a gweinyddu'r grantiau hynny), ac

(g) gwariant ar dalu treuliau a grantiau o dan reoliadau a wneir o dan adran 518(1) o Ddeddf 1996(**63**).

14.—(1) Gwariant ar Wasanaeth Lles Addysg yr awdurdod lleol a gwariant arall sy'n codi o swyddogaethau'r awdurdod lleol o dan Bennod 2 o Ran 6 o Ddeddf 1996 (presenoldeb yn yr ysgol).

(2) Yn y paragraff hwn, ystyr "Gwasanaeth Lles Addysg" yw gwasanaeth a ddarperir gan awdurdod lleol at ddiben lleihau lefelau absenoldeb anawdurdodedig o ysgolion.

15. Gwariant ar ddarparu cymorth ar gyfer myfyrwyr o dan adran 1(1) o Ddeddf Addysg 1962(**64**) ac o dan adran 22 o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998(**65**).

16. Gwariant ar grantiau disgresiynol o dan adran 1(6) neu 2 o Ddeddf Addysg 1962 (dyfarndaliadau ar gyfer cyrsiau dynodedig a chyrsiau eraill).

17. Gwariant ar dalu lwfansau i bersonau dros oedran ysgol gorfodol o dan reoliadau a wneir o dan adran 518(1)(b) o Ddeddf 1996(**66**) (talu treuliau ysgol; rhoi ysgoloriaethau, etc.).

(**58**) Amnewidiwyd is-adran (2), fel y'i deddfwyd yn wreiddiol, gan Ddeddf Addysg 2002, Atodlen 4, paragraff 5(2), ac fe'i diwygiwyd gan Ddeddf Addysg ac Arolygiadau 2006, adran 45 ac Atodlen 18, Rhan 6, a chan O.S. 2010/1158.

(**59**) Mewnosodwyd adran 85A gan Ddeddf Addysg 2002, adran 46, ac fe'i diwygiwyd gan Ddeddf Addysg ac Arolygiadau 2006, adran 41(2) ac Atodlen 18, Rhan 6, gan Ddeddf Addysg 2011, adran 34(2), a chan O.S. 2010/1158.

(**60**) 2008 mccc 2.

(**61**) Diwygiwyd adran 510 gan Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998, Atodlen 30, paragraff 134, ac Atodlen 31, gan Ddeddf Addysg ac Arolygiadau 2006, Atodlen 1, paragraff 5, gan Ddeddf Addysg 2011, Atodlen 13, paragraff 9(14), gan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018, Atodlen 1, paragraff 4(22), a chan O.S. 2010/1158.

(**62**) Diwygiwyd adran 514 gan Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998, Atodlen 30, paragraff 135, gan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018, Atodlen 1, paragraff 4(23), a chan O.S. 2010/1158.

(**63**) Amnewidiwyd adran 518 gan Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998, adran 129, ac fe'i diwygiwyd gan O.S. 2010/1158.

(**64**) 1962 p. 12. Diddymwyd Deddf Addysg 1962 ("Deddf 1962") gan Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 (p. 30), Atodlen 4, gyda darpariaethau trosiannol a darpariaethau arbed (gweler O.S. 1998/3237). Nid yw'r diddymiad yn effeithio ar weithrediad parhaus y darpariaethau sy'n ymwneud â gwneud is-ddeddfwriaeth. Mae gwariant o dan Ddeddf 1962 wedi ei gynnwys yn y Rheoliadau hyn er mwyn cwmpasu unrhyw wariant mewn cysylltiad ag unrhyw ddyfarndaliadau o dan y Ddeddf honno sy'n dal i fodoli. Mae'r prif Reoliadau sy'n ymdrin â chymorth i fyfyrwyr yng Nghymru yn parhau i gyfeirio at Ddeddf Addysg 1962 (gweler O.S. 2018/191 (Cy. 42)).

(**65**) 1998 p. 30, ac fe'i diwygiwyd gan Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000, adran 146(2) ac Atodlen 11, gan Ddeddf Treth Incwm (Enillion a Phensiynau) 2003 (p. 1), Atodlen 6, paragraff 236, gan Ddeddf Cyllid 2003 (p. 14), adran 147(3), gan Ddeddf Addysg Uwch 2004 (p. 8), adrannau 42(1), 43 a 52(1) ac Atodlen 7, gan Ddeddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009, adran 257(2), gan Ddeddf Cyllid 2003, adran 147(3), gan Ddeddf Addysg 2011, adran 76(1), gan Ddeddf Addysg Uwch ac Ymchwil 2017 (p. 29), adrannau 86(2) i (7) ac 88, a chan O.S. 2013/1881.

(**66**) Amnewidiwyd adran 518 gan Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998, adran 129, ac fe'i diwygiwyd gan O.S. 2010/1158.

18. Gwariant ar dalu lwfansau i bersonau dros oedran ysgol gorfodol mewn cysylltiad ag addysg neu hyfforddiant, a wneir o dan adran 14 o Ddeddf 2002(**67**) (pŵer i Weinidogion Cymru ddarparu cymorth ariannol) neu o dan reoliadau a wneir o dan adran 181(1) o Ddeddf 2002 (lwfansau mewn cysylltiad ag addysg neu hyfforddiant).

Addysg, hyfforddiant a gwasanaethau ar gyfer pobl ifanc ac oedolion

19. Gwariant ar ddarparu addysg a hyfforddiant, gweithgaredd amser hamdden wedi ei drefnu, a darpariaeth arall, gan yr awdurdod lleol, o dan adrannau 15A(**68**) a 15B(**69**) o Ddeddf 1996.

20. Gwariant ar ddarparu adloniant a hyfforddiant cymdeithasol a chorfforol gan yr awdurdod lleol o dan adrannau 15A a 508(**70**) o Ddeddf 1996.

21.—(1) Gwariant ar ddarparu gwasanaethau gan yr awdurdod lleol o dan adran 123 o Ddeddf 2000 (darparu gwasanaethau) i annog a galluogi cyfranogiad pobl ifanc mewn addysg a hyfforddiant.

(2) Yn y paragraff hwn, mae i "pobl ifanc" yr ystyr a roddir i "young persons" yn adran 579(1) o Ddeddf 1996.

22. Gwariant mewn perthynas â swyddogaethau'r awdurdod lleol mewn cysylltiad â'r cwricwlwm lleol o dan adrannau 33J(**71**), 33K(**72**) a 33L(**73**) o Ddeddf 2000.

Rheoli strategol

23.—(1) Gwariant mewn cysylltiad â swyddogaethau addysg awdurdod lleol mewn perthynas ag—

(a) swyddogaethau prif swyddog addysg awdurdod lleol a'i staff personol,

(b) cynllunio ar gyfer gwasanaeth addysg yr awdurdod lleol yn ei gyfanrwydd, gan gynnwys—

(i) cynllunio a rheoli cyflenwad lleoedd ysgol, a swyddogaethau mewn perthynas â sefydlu, newid neu derfynu ysgolion o dan Benodau 2, 3 a 3A(**74**) o Ran 3 o Ddeddf 2013,

---

(**67**) Diwygiwyd adran 14 gan Ddeddf Plant 2004, adran 59, gan Ddeddf Addysg 2005, Atodlen 14, paragraff 23(2), gan Ddeddf Addysg 2011, adran 15(2), a chan O.S. 2010/1158 ac O.S. 2019/1027.

(**68**) Mewnosodwyd adran 15A gan Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998, Atodlen 30, paragraff 63, ac fe'i diwygiwyd gan Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000, Atodlen 9, paragraff 54, gan Ddeddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009, Atodlen 2, paragraff 4, gan Ddeddf Plant a Theuluoedd 2014, Atodlen 3, paragraff 6, gan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018, Atodlen 1, paragraff 4(4), gan Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022, Atodlen 4, paragraff 8(3), a chan O.S. 2010/1158.

(**69**) Mewnosodwyd adran 15B gan Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000, Atodlen 9, paragraff 55, ac fe'i diwygiwyd gan Ddeddf Plant a Theuluoedd 2014, Atodlen 3, paragraff 7, gan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018, Atodlen 1, paragraff 4(5), gan Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022, Atodlen 4, paragraff 8(4), a chan O.S. 2010/1158.

(**70**) Diwygiwyd adran 508 gan Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000, adran 137, gan Ddeddf Addysg ac Arolygiadau 2006, Atodlen 1, paragraff 4, gan Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022, Atodlen 4, paragraff 8(7), a chan O.S. 2010/1158.

(**71**) Mewnosodwyd adran 33J gan Fesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009 (mccc 1), adran 31, ac fe'i diwygiwyd gan Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch (Llywodraethu a Gwybodaeth) (Cymru) 2014 (dccc 1), adran 6(1), a chan Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022, Atodlen 4, paragraff 14(10).

(**72**) Mewnosodwyd adran 33K gan Fesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009, adran 32, ac fe'i diwygiwyd gan Fesur Addysg (Cymru) 2011, adran 9(2), a chan Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022, Atodlen 4, paragraff 14(11).

(**73**) Mewnosodwyd adran 33L gan Fesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009, adran 33, ac fe'i diwygiwyd gan Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch (Llywodraethu a Gwybodaeth) (Cymru) 2014, adran 6(2), a chan Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022, Atodlen 4, paragraff 14(12).

(**74**) Mewnosodwyd Pennod 3A gan Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022, Atodlen 4, paragraff 29(7).

(ii) llunio unrhyw ran o gynllun llesiant lleol yr awdurdod lleol sy'n ymwneud â threfniadaeth ysgolion a gwella ysgolion, a

(iii) ymateb i ddatganiadau polisi a phapurau ymgynghori,

(c) swyddogaethau'r awdurdod lleol o dan Ran 1 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009(**75**) (gwella llywodraeth leol) a Phennod 1 o Ran 6 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021(**76**) (perfformiad, asesiadau perfformiad ac ymyrraeth: prif gynghorau) a darparu cyngor i gynorthwyo cyrff llywodraethu i gaffael nwyddau a gwasanaethau gyda golwg ar sicrhau gwelliant parhaus yn y ffordd y mae swyddogaethau'r cyrff llywodraethu hynny yn cael eu harfer, gan roi sylw i gyfuniad o ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd,

(d) paratoi cyllideb refeniw,

(e) paratoi gwybodaeth ynghylch incwm a gwariant sy'n ymwneud ag addysg, i'w hymgorffori yn natganiad o gyfrifon blynyddol yr awdurdod lleol,

(f) archwiliad allanol i hawliadau am grantiau a ffurflenni sy'n ymwneud ag addysg a swyddogaethau'r awdurdod lleol o dan adran 44 o Ddeddf 2002(**77**) (cyfrifon ysgolion a gynhelir),

(g) gweinyddu grantiau i'r awdurdod lleol (gan gynnwys paratoi ceisiadau), swyddogaethau a osodir gan neu o dan Bennod 4 o Ran 2 o Ddeddf 1998 a, phan fo dyletswydd ar yr awdurdod lleol i wneud hynny, sicrhau bod taliadau yn cael eu gwneud mewn cysylltiad â threthiant, yswiriant gwladol a chyfraniadau blwydd-dal pensiwn,

(h) awdurdodi a monitro—

(i) gwariant nad yw'n cael ei dalu o gyfrannau ysgolion o'r gyllideb ac sy'n ymwneud â gweinyddu ariannol, a

(ii) gwariant mewn cysylltiad ag ysgolion heb gyllidebau dirprwyedig ac sy'n ymwneud â gweinyddu ariannol,

(i) monitro, gan yr awdurdod lleol, gydymffurfedd â gofynion ei gynllun ariannol, ac unrhyw ofynion eraill mewn perthynas â darparu cyfleusterau cymunedol gan gyrff llywodraethu o dan adran 27 o Ddeddf 2002 (pŵer corff llywodraethu i ddarparu cyfleusterau cymunedol etc.),

(j) tasgau sy'n angenrheidiol ar gyfer cyflawni cyfrifoldebau prif swyddog cyllid yr awdurdod lleol o dan adran 151 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972(**78**) (gweinyddu ariannol),

(k) o ran staff ("staff") a gyllidir gan wariant nad yw'n cael ei dalu o gyfrannau ysgolion o'r gyllideb ac a delir am wasanaethau a gyflawnir mewn perthynas â swyddogaethau a gwasanaethau'r awdurdod lleol y cyfeirir atynt yn yr Atodlen hon, cost y canlynol—

(i) recriwtio'r staff hynny,

(ii) hyfforddi'r staff hynny,

(iii) datblygiad proffesiynol parhaus y staff hynny,

(iv) rheoli perfformiad y staff hynny, a

(v) rheoli personél y staff hynny,

(**75**) 2009 mccc 2.
(**76**) 2021 dsc 1.
(**77**) Diwygiwyd adran 44 gan O.S. 2010/1158.
(**78**) 1972 p. 70, ac fe'i diwygiwyd gan O.S. 2021/1349 (Cy. 348).

(l) ymchwiliadau y mae'r awdurdod lleol yn eu cynnal i gyflogeion, neu i gyflogeion posibl, yr awdurdod lleol neu i gyrff llywodraethu ysgolion, neu i bersonau sydd wedi eu cymryd ymlaen fel arall, neu sydd i'w cymryd ymlaen (gyda thâl neu'n ddi-dâl) i weithio mewn ysgolion neu drostynt,

(m) swyddogaethau'r awdurdod lleol mewn perthynas â blwydd-dal pensiwn, gan gynnwys gweinyddu pensiynau athrawon, heblaw swyddogaethau sydd wedi eu dirprwyo i gyrff llywodraethu ysgolion,

(n) aelodaeth ôl-weithredol o gynlluniau pensiwn ac etholiadau ôl-weithredol a wneir mewn cysylltiad â phensiynau, pan na fyddai'n briodol disgwyl i gorff llywodraethu dalu'r gost o gyfran yr ysgol o'r gyllideb,

(o) cyngor, yn unol â swyddogaethau statudol yr awdurdod lleol, i gyrff llywodraethu—

(i) mewn perthynas â staff a delir, neu sydd i'w talu, i weithio mewn ysgol ("gweithlu'r ysgol"), a

(ii) mewn perthynas â rheoli gweithlu'r ysgol ar y cyd mewn unrhyw ysgol unigol, gan gynnwys, yn benodol, gyngor mewn perthynas â newidiadau o ran tâl, amodau gwasanaeth a chyd-gyfansoddiad a chyd-drefniadaeth gweithlu'r ysgol,

(p) penderfynu amodau gwasanaeth ar gyfer staff nad ydynt yn addysgu a rhoi cyngor i ysgolion ynghylch graddfeydd cyflog ar gyfer staff o'r fath,

(q) swyddogaethau'r awdurdod lleol sy'n ymwneud â phenodi neu ddiswyddo cyflogeion,

(r) ymgynghori, a swyddogaethau i baratoi ar gyfer ymgynghori, â chyrff llywodraethu, disgyblion a phersonau a gyflogir mewn ysgolion neu eu cynrychiolwyr, neu â chyrff eraill sydd â buddiant, neu ymgynghori, a swyddogaethau i baratoi ar gyfer ymgynghori, gan gyrff llywodraethu, disgyblion a phersonau a gyflogir mewn ysgolion neu eu cynrychiolwyr,

(s) cydymffurfedd â dyletswyddau'r awdurdod lleol o dan Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith etc. 1974(**79**), a'r darpariaethau statudol perthnasol fel y diffinnir "the relevant statutory provisions" yn adran 53(1)(**80**) o'r Ddeddf honno, i'r graddau na ellir cyflawni cydymffurfedd yn rhesymol drwy dasgau a ddirprwyir i gyrff llywodraethu ysgolion, a chan gynnwys gwariant yr eir iddo gan yr awdurdod lleol wrth fonitro'r modd y cyflawnir tasgau o'r fath gan gyrff llywodraethu a, phan fo'n angenrheidiol, roi cyngor i'r cyrff llywodraethu hynny,

(t) ymchwilio i gwynion a'u datrys, gan gynnwys camau gweithredu a gymerir i gynorthwyo corff llywodraethu i ymdrin â chŵyn,

(u) gwasanaethau cyfreithiol sy'n ymwneud â swyddogaethau'r awdurdod lleol,

(v) paratoi ac adolygu cynlluniau sy'n golygu cydweithio â gwasanaethau eraill awdurdod lleol neu â chyrff cyhoeddus neu gyrff gwirfoddol,

(w) paratoi a chyhoeddi unrhyw ran o gynllun llesiant lleol yr awdurdod lleol sy'n ymwneud â datblygu blynyddoedd cynnar a gofal plant, a darparu partneriaeth datblygu'r blynyddoedd cynnar a gofal plant, ond nid y gwariant a awdurdodir ganddi, o dan adran 119 o Ddeddf 1998(**81**),

---

(**79**) 1974 p. 37.

(**80**) Diwygiwyd y diffiniad o "the relevant statutory provisions" yn adran 53(1) gan Ddeddf Diogelu Cyflogaeth 1975 (p. 71), Atodlen 15, paragraff 18.

(**81**) Diwygiwyd adran 119 gan Ddeddf Addysg 2002, adran 150(5) ac Atodlen 22, Rhan 3, gan Ddeddf Plant 2004, Atodlen 5, Rhan 1, gan Ddeddf Gofal Plant 2006, Atodlen 2, paragraff 32, ac Atodlen 3, Rhan 2, a chan O.S. 2010/1158.

(x) darparu gwybodaeth i'r Comisiwn, i Weinidogion Cymru, i un o adrannau'r llywodraeth neu i unrhyw un sy'n arfer swyddogaethau ar ran y Goron, neu ddarparu gwybodaeth ar gais y Comisiwn, Gweinidogion Cymru, un o adrannau'r llywodraeth neu unrhyw un sy'n arfer swyddogaethau ar ran y Goron, a darparu gwybodaeth arall y mae dyletswydd ar yr awdurdod lleol i'w rhoi ar gael,

(y) talu ffioedd sy'n daladwy i Gyngor y Gweithlu Addysg o dan adran 9 o Ddeddf 2014 (cofrestr a gynhelir gan Gyngor y Gweithlu Addysg),

(z) gwariant yr eir iddo wrth ddarparu gwybodaeth y mae Cyngor y Gweithlu Addysg yn ei gwneud yn ofynnol ei darparu o dan adran 36 o Ddeddf 2014 (cyflogwyr yn rhoi gwybodaeth i Gyngor y Gweithlu Addysg),

(aa) gwariant yr eir iddo mewn cysylltiad â swyddogaethau'r awdurdod lleol o dan reoliadau a wneir o dan adran 12 o Ddeddf 2002(**82**) (awdurdodau'n goruchwylio cwmnïau a ffurfiwyd gan gyrff llywodraethu), ac

(bb) gwariant yr eir iddo mewn cysylltiad â swyddogaethau'r awdurdod lleol o dan y darpariaethau sy'n ymwneud â gwahaniaethu yn Neddf Cydraddoldeb 2010(**83**), i'r graddau na ellir cyflawni cydymffurfedd yn rhesymol drwy dasgau a ddirprwyir i gyrff llywodraethu ysgolion, a chan gynnwys gwariant yr eir iddo gan yr awdurdod lleol wrth fonitro'r modd y cyflawnir tasgau o'r fath gan gyrff llywodraethu a, phan fo'n angenrheidiol, roi cyngor i'r cyrff llywodraethu hynny.

(2) Yn y paragraff hwn—

ystyr "datblygu blynyddoedd cynnar" ("*early years development*") yw datblygiad plant sydd o dan oedran ysgol gorfodol gan gynnwys drwy ddarparu addysg feithrin o dan adran 117 o Ddeddf 1998;

mae i "gofal plant" yr ystyr a roddir i "childcare" yn adran 30 o Ddeddf Gofal Plant 2006(**84**);

ystyr "prif swyddog addysg" ("*chief education officer*") yw'r person a benodwyd i'r swydd honno o dan adran 532 o Ddeddf Addysg 1996(**85**);

ystyr "prif swyddog cyllid" ("*chief finance officer*") yw'r person sydd â chyfrifoldeb am faterion ariannol yr awdurdod lleol;

mae i "swyddogaethau addysg" yr ystyr a roddir i "education functions" yn adran 579(1) o Ddeddf 1996(**86**).

24. Gwariant mewn cysylltiad â monitro perfformiad ysgolion, monitro'r gwaith o reoli cyllidebau dirprwyedig a monitro'r gwaith o reoli a llywodraethu ysgolion o'r fath.

25. Gwariant ar sefydlu a chynnal systemau cyfrifiadurol electronig, gan gynnwys storio data, i'r graddau y maent yn cysylltu, neu'n hwyluso'r gwaith o gysylltu—

(a) yr awdurdod lleol ag ysgolion a gynhelir ganddo ("ysgolion awdurdod lleol"),

(b) ysgolion awdurdodau lleol â'i gilydd, neu

(c) ysgolion awdurdodau lleol â phersonau neu sefydliadau eraill.

(**82**) Diwygiwyd adran 12 gan O.S. 2010/1158. Nid yw adran 12 wedi ei chychwyn, o ran Cymru, ar ddyddiad gwneud y Rheoliadau hyn.
(**83**) 2010 p. 15.
(**84**) Diwygiwyd adran 30 gan Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 (mccc 1), Atodlen 1, paragraff 22.
(**85**) Diwygiwyd adran 532 gan Ddeddf Plant 2004, Atodlen 2, paragraff 4(2), a chan O.S. 2010/1158.
(**86**) Mewnosodwyd y diffiniad o "education functions" gan O.S. 2010/1158.

26. Gwariant ar fonitro trefniadau asesu'r cwricwlwm sy'n ofynnol gan reoliadau a wneir o dan Ran 4 o Ddeddf 2021(**87**).

27. Gwariant mewn cysylltiad â swyddogaethau'r awdurdod lleol mewn perthynas â'r Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg a ffurfiwyd gan yr awdurdod lleol o dan adran 390(1A) o Ddeddf 1996(**88**) neu mewn cysylltiad ag ailystyried a pharatoi maes llafur cytunedig ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn unol ag Atodlen 31 i Ddeddf 1996(**89**).

28. Gwariant mewn cysylltiad â diswyddiad neu ymddeoliad cynamserol unrhyw berson, neu at ddiben sicrhau ymddiswyddiad unrhyw berson, neu mewn cysylltiad â gweithredoedd sy'n gwahaniaethu yn erbyn unrhyw berson.

29. Gwariant mewn cysylltiad â thâl athro neu athrawes o dan adran 22(2) o Ddeddf 2014 (darpariaeth mewn cysylltiad â thâl athrawon pan na fo athro neu athrawes wedi cwblhau cyfnod sefydlu).

30. Gwariant ar wneud taliadau pensiwn, heblaw mewn cysylltiad â staff a gyflogir mewn ysgolion.

31. Gwariant yn unol â chytundeb rhwymol, pan fo'r parti arall yn awdurdod lleol, neu pan fo'r partïon eraill yn cynnwys un neu ragor o awdurdodau lleol, mewn perthynas â gweithredu cyfleuster a ddarperir yn rhannol at ddefnydd ysgolion ond nid at ddefnydd ysgolion yn unig.

32. Gwariant mewn cysylltiad â swyddogaethau corff priodol o dan reoliadau a wneir o dan adran 17(2)(d) o Ddeddf 2014(**90**) (darpariaeth mewn cysylltiad â'r gofyniad i ymgymryd â chyfnod sefydlu).

33. Gwariant ar benodi llywodraethwyr, gwneud offerynnau llywodraethu, talu treuliau y mae gan lywodraethwyr hawlogaeth i'w cael ac nad ydynt yn daladwy o gyfran ysgol o'r gyllideb, a darparu gwybodaeth i lywodraethwyr.

34. Unrhyw wariant ar yswiriant heblaw ar gyfer atebolrwydd sy'n codi mewn cysylltiad ag ysgolion neu fangre ysgol.

35. Gwariant yr eir iddo mewn cysylltiad â swyddogaethau'r awdurdod lleol o dan adran 47A o Ddeddf 1998 (sefydlu a chynnal fforymau ysgolion ac ymgynghori â hwy).

36. Gwariant yr eir iddo mewn cysylltiad ag ardrethi annomestig sy'n daladwy mewn cysylltiad â mangre pob ysgol, o dan adran 54 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988(**91**).

(**87**) Mae'r trefniadau asesu cyfredol wedi eu nodi yn O.S. 2022/17 (Cy. 9) ac O.S. 2024/607 (Cy. 86).

(**88**) Diwygiwyd adran 390 gan Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998, Atodlen 30, paragraff 93, gan Ddeddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021, Atodlen 2, paragraff 9, a chan O.S. 2010/1158.

(**89**) Diwygiwyd Atodlen 31 gan Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998, Atodlen 30, paragraff 188, ac Atodlen 31, gan Ddeddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021, Atodlen 2, paragraff 26, a chan O.S. 2010/1158.

(**90**) Y Rheoliadau cyfredol yw O.S. 2020/623 (Cy. 143) ac O.S. 2022/1058 (Cy. 223).

(**91**) 1988 p. 41, ac fe'i diwygiwyd gan Ddeddf Ardrethu Annomestig 2023 (p. 53), adran 3(1), a chan baragraff 1(7) o'r Atodlen i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) 2024 (dsc 6). Mae offeryn diwygio arall ond nid yw'n berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

ATODLEN 3

Rheoliad 7(1)

Dosbarthau neu Ddisgrifiadau o Wariant Cynlluniedig y Caniateir ei Ddidynnu o Gyllideb Ysgolion Awdurdod Lleol er mwyn Penderfynu'r Gyllideb Ysgolion Unigol

Dehongli

1. Yn yr Atodlen hon, ystyr "DHC 1996" yw Deddf Hawliau Cyflogaeth 1996(**92**).

Gwariant ar gyfer cynnal grantiau

2. Gwariant y mae rhwymedigaeth ar yr awdurdod lleol i fynd iddo fel un o amodau grant penodol a delir i'r awdurdod lleol ac a ystyrir wrth benderfynu swm grant penodol o'r fath, heblaw gwariant yr eir iddo mewn cysylltiad ag unrhyw baragraff arall yn yr Atodlen hon neu unrhyw baragraff yn Atodlen 2.

3. Unrhyw swm—

(a) y mae rhwymedigaeth ar yr awdurdod lleol i'w roi ar gael fel un o amodau—

(i) grant a delir o dan adran 14 o Ddeddf 2002 (pŵer i Weinidogion Cymru ddarparu cymorth ariannol),

(ii) Grant gan y Comisiwn, neu

(iii) grant a delir o dan adran 484 o Ddeddf 1996(**93**) (grantiau safonau addysg), a

(b) sy'n cael ei ystyried gan y grantwr wrth benderfynu swm grant o'r fath, ac mae penderfyniadau ynghylch gwariant grant o'r fath yn cael eu dirprwyo i gorff llywodraethu.

Anghenion dysgu ychwanegol ac anghenion eraill disgyblion

4. Yn ddarostyngedig i baragraffau 5 a 6, gwariant wrth wneud y ddarpariaeth a bennir yng nghynllun datblygu unigol disgybl, a lunnir ac a gynhelir gan yr awdurdod lleol o dan Ran 2 o Ddeddf 2018, ac eithrio pan fo'r disgybl—

(a) yn ddisgybl cofrestredig mewn ysgol arbennig a gynhelir gan yr awdurdod lleol, neu

(b) yn ddisgybl cofrestredig mewn ysgol feithrin a gynhelir, ysgol gynradd neu ysgol uwchradd a gynhelir gan yr awdurdod lleol ac sy'n cymryd un o nifer o leoedd ysgol yn yr ysgolion hynny y mae'r awdurdod lleol yn cydnabod eu bod wedi eu neilltuo ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol.

5. Pan fo disgybl yn dod o fewn paragraff 4(a) neu (b) a bo cost y ddarpariaeth a bennir yng nghynllun datblygu unigol y disgybl, a lunnir ac a gynhelir gan yr awdurdod lleol o dan Ran 2 o Ddeddf 2018, yn sylweddol fwy na chost gyfartalog y ddarpariaeth ar gyfer y disgyblion eraill yn yr ysgol arbennig neu'r disgyblion eraill sy'n cymryd y

(**92**) 1996 p. 18.

(**93**) Diwygiwyd adran 484 gan Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998, Atodlen 30, paragraff 125, gan Ddeddf Addysg 2002, Atodlen 21, paragraff 49, ac Atodlen 22, Rhan 3, gan Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, Atodlen 5, paragraff 2(1) a (3), a chan O.S. 2010/1158. Mae adran 484 wedi ei diddymu gan Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022, Atodlen 4, paragraff 8(5), ond ar ddyddiad gwneud y Rheoliadau hyn, nid yw'r diddymiad hwnnw mewn grym eto.

lleoedd ysgol sydd wedi eu neilltuo yn yr ysgol o dan sylw, o ba faint y mae'r gost honno'n fwy.

6. Gwariant wrth wneud y ddarpariaeth a bennir yng nghynllun datblygu unigol disgybl, a lunnir ac a gynhelir gan yr awdurdod lleol o dan Ran 2 o Ddeddf 2018, pan fo'r disgybl yn dod o fewn paragraff 4(b) ond bo'r lleoedd ysgol y mae'r awdurdod lleol yn cydnabod eu bod wedi eu neilltuo ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn lleoedd ar gyfer disgyblion o'r fath sydd ag amhariad ar eu golwg, eu clyw, eu lleferydd neu iaith, neu anhwylder cyfathrebu arall.

7. Gwariant mewn cysylltiad â chymorth arbenigol a ddarperir i gynorthwyo'r cyrff llywodraethu i ddiwallu anghenion penodol disgyblion sydd â chynllun datblygu unigol a lunnir ac a gynhelir gan yr awdurdod lleol o dan Ran 2 o Ddeddf 2018.

8. Gwariant na fyddai'n briodol disgwyl iddo gael ei dalu o gyfran yr ysgol o'r gyllideb ac sy'n wariant at ddibenion sy'n gysylltiedig ag—

(a) annog cydweithio rhwng ysgolion arbennig ac ysgolion meithrin a gynhelir, ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd, i alluogi plant ag anghenion dysgu ychwanegol i gymryd rhan mewn gweithgareddau mewn ysgolion meithrin a gynhelir, ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd,

(b) rhoi hwb i addysgu plant ag anghenion dysgu ychwanegol mewn ysgolion meithrin a gynhelir, ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd, ac

(c) annog plant ag anghenion dysgu ychwanegol mewn ysgolion meithrin a gynhelir, ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd i gymryd rhan mewn gweithgareddau yn yr ysgol gyda phlant nad oes ganddynt anghenion dysgu ychwanegol.

9. Gwariant mewn perthynas ag addysg ac eithrio yn yr ysgol o dan adran 19A o Ddeddf 1996 neu mewn perthynas ag uned cyfeirio disgyblion fel y diffinnir "pupil referral unit" yn yr adran honno.

10. Gwariant, heblaw gwariant yr eir iddo o dan Atodlen 2 neu unrhyw baragraff arall yn yr Atodlen hon, yr eir iddo ar wasanaethau sy'n ymwneud ag addysg plant ag anawsterau ymddygiadol ac ar weithgareddau eraill at ddibenion osgoi gwahardd disgyblion o ysgolion.

11. Gwariant ar dalu ffioedd o dan adran 51 o Ddeddf 2018 mewn cysylltiad â disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol—

(a) mewn ysgol annibynnol,

(b) mewn ysgol sydd wedi ei chymeradwyo o dan adran 342 o Ddeddf 1996, neu

(c) mewn sefydliad y tu allan i Gymru a Lloegr, o dan adran 59 o Ddeddf 2018.

12. Gwariant ar daliadau i awdurdod lleol arall o dan adran 493(**94**) neu 494(**95**) o Ddeddf 1996 neu adran 207 o Ddeddf 2002(**96**) (adennill rhwng awdurdodau lleol).

Staff

13. Gwariant wrth dalu person, neu wrth ddarparu i lenwi bwlch dros dro ar gyfer person—

(**94**) Diwygiwyd adran 493 gan Ddeddf Addysg 2002, adran 208(1), a chan O.S. 2010/1158.
(**95**) Diwygiwyd adran 494 gan Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998, Atodlen 30, paragraff 128, gan Ddeddf Addysg 2005, Atodlen 18, paragraff 5, a chan O.S. 2010/1158.
(**96**) Diwygiwyd adran 207 gan Ddeddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009, Atodlen 2, paragraff 14, a chan O.S. 2010/1158.

(a) sydd ar gyfnod o absenoldeb mamolaeth a roddir gan adran 71(**97**) neu 73(**98**) o DHC 1996,

(b) sydd ar gyfnod o absenoldeb mabwysiadu a roddir gan adran 75A(**99**) neu 75B(**100**) o DHC 1996,

(c) sydd ar gyfnod o absenoldeb rhiant a rennir a roddir gan adran 75E(**101**) neu 75G(**102**) o DHC 1996,

(d) sydd ar gyfnod o absenoldeb rhiant a roddir gan adran 76 o DHC 1996(**103**),

(e) sydd ar gyfnod o absenoldeb tadolaeth a roddir gan adran 80A(**104**) neu 80B(**105**) o DHC 1996,

(f) sydd ar gyfnod o absenoldeb oherwydd profedigaeth a roddir gan adran 80EA o DHC 1996(**106**), neu

(g) sydd ar gyfnod o absenoldeb gofal newyddenedigol a roddir gan adran 80EF o DHC 1996(**107**).

14. Gwariant wrth dalu person, neu wrth ddarparu i lenwi bwlch dros dro ar gyfer person—

(a) sy'n cyflawni dyletswyddau undebau llafur neu'n ymgymryd â hyfforddiant o dan adrannau 168(**108**) a 168A(**109**) o Ddeddf yr Undebau Llafur a Chysylltiadau Llafur (Cydgrynhoi) 1992,

(b) sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau undebau llafur o dan adran 170 o Ddeddf yr Undebau Llafur a Chysylltiadau Llafur (Cydgrynhoi) 1992(**110**),

(c) sy'n cyflawni dyletswyddau cyhoeddus o dan adran 50 o DHC 1996,

(d) sy'n gwasanaethu ar reithgor,

(**97**) Amnewidiwyd adran 71 gan Ddeddf Cysylltiadau Cyflogaeth 1999 (p. 26), Atodlen 4, Rhan 1, ac fe'i diwygiwyd gan Ddeddf Cyflogaeth 2002 (p. 22), adran 17(2) a (3), gan Ddeddf Gwaith a Theuluoedd 2006 (p. 18), Atodlen 1, paragraff 31, a chan Ddeddf Plant a Theuluoedd 2014, adran 118(2).

(**98**) Amnewidiwyd adran 73 gan Ddeddf Cysylltiadau Cyflogaeth 1999, Atodlen 4, Rhan 1, ac fe'i diwygiwyd gan Ddeddf Cyflogaeth 2002 (p. 22), adran 17(4), gan Ddeddf Gwaith a Theuluoedd 2006, Atodlen 1, paragraff 32, a chan Ddeddf Plant a Theuluoedd 2014, adran 118(3).

(**99**) Mewnosodwyd adran 75A gan Ddeddf Cyflogaeth 2002, adran 3, ac fe'i diwygiwyd gan Ddeddf Gwaith a Theuluoedd 2006, Atodlen 1, paragraff 33, gan Ddeddf Plant a Theuluoedd 2014, adrannau 118(4) a 121(1), a chan O.S. 2016/413 (Cy. 131) ac O.S. 2018/1413.

(**100**) Mewnosodwyd adran 75B gan Ddeddf Cyflogaeth 2002, adran 3, ac fe'i diwygiwyd gan Ddeddf Gwaith a Theuluoedd 2006, Atodlen 1, paragraff 34, gan Ddeddf Plant a Theuluoedd 2014, adran 118(5), a chan O.S. 2018/1413.

(**101**) Mewnosodwyd adran 75E gan Ddeddf Plant a Theuluoedd 2014, adran 117(1).

(**102**) Mewnosodwyd adran 75G gan Ddeddf Plant a Theuluoedd 2014, adran 117(1), ac fe'i diwygiwyd gan O.S. 2016/413 (Cy. 131).

(**103**) Amnewidiwyd adran 76, fel y'i deddfwyd yn wreiddiol, gan Ddeddf Cysylltiadau Cyflogaeth 1999, Atodlen 4, Rhan 1.

(**104**) Mewnosodwyd adran 80A gan Ddeddf Cyflogaeth 2002, adran 1, ac fe'i diwygiwyd gan Ddeddf Plant a Theuluoedd 2014, adran 118(6), ac Atodlen 7, paragraff 32, a chan Ddeddf Absenoldeb Tadolaeth (Profedigaeth) 2024 (p. 17), adran 1(2).

(**105**) Mewnosodwyd adran 80B gan Ddeddf Cyflogaeth 2002, adran 1, ac fe'i diwygiwyd gan Ddeddf Plant a Theuluoedd 2014, adrannau 118(7), 121(2), 122(4) a 128(2)(b), ac Atodlen 7, paragraff 33, gan Ddeddf Absenoldeb Tadolaeth (Profedigaeth) 2024, adran 1(3), a chan O.S. 2016/413.

(**106**) Mewnosodwyd adran 80EA gan baragraff 2 o'r Atodlen i Ddeddf Profedigaeth Rhiant (Absenoldeb a Thâl) 2018 (p. 24).

(**107**) Mewnosodwyd adran 80EF gan baragraff 2 o'r Atodlen i Ddeddf Gofal Newyddenedigol (Absenoldeb a Thâl) 2023 (p. 20).

(**108**) 1992 p. 52, ac fe'i diwygiwyd gan Ddeddf Hawliau Cyflogaeth (Datrys Anghydfodau) 1998 (p. 8), adran 1(2)(a), a chan O.S. 1999/1925 ac O.S. 2006/246.

(**109**) Mewnosodwyd adran 168A gan Ddeddf Cyflogaeth 2002, adran 43(2).

(**110**) Diwygiwyd adran 170 gan Ddeddf Cyflogaeth 2002, adran 43(4) a (5), a chan Ddeddf Hawliau Cyflogaeth (Datrys Anghydfodau) 1998, adran 1(2)(a).

(e) sy'n gynrychiolydd diogelwch o dan Reoliadau Cynrychiolwyr Diogelwch a Phwyllgorau Diogelwch 1977(**111**),

(f) sy'n gynrychiolydd diogelwch cyflogeion o dan Reoliadau Iechyd a Diogelwch (Ymgynghori â Chyflogeion) 1996(**112**),

(g) sy'n gynrychiolydd cyflogeion at ddibenion—

(i) Pennod 2 o Ran 4 o Ddeddf yr Undebau Llafur a Chysylltiadau Llafur (Cydgrynhoi) 1992 fel y diffinnir "employee representatives" yn adran 196 o'r Ddeddf honno(**113**), neu

(ii) Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) 2006(**114**),

(h) sy'n cymryd amser i ffwrdd ar gyfer gofal cynenedigol o dan adran 55 o DHC 1996(**115**),

(i) sy'n cyflawni dyletswyddau aelod o'r lluoedd wrth gefn fel y diffinnir "the reserved forces" yn adran 1(2) o Ddeddf Lluoedd Wrth Gefn 1996(**116**),

(j) sydd wedi ei atal dros dro rhag gweithio mewn ysgol,

(k) sy'n aelod o Gyngor y Gweithlu Addysg neu'n aelod o bwyllgor a sefydlwyd gan y Cyngor hwnnw, neu

(l) sydd wedi ei benodi'n gynrychiolydd dysgu i undeb llafur gan yr undeb llafur, er mwyn iddo ddadansoddi'r gofynion hyfforddi neu ddarparu neu hybu cyfleoedd hyfforddi, a chyflawni gwaith ymgynghori neu waith paratoi mewn cysylltiad â swyddogaethau o'r fath.

15. Gwariant wrth dalu person, neu wrth ddarparu i lenwi bwlch dros dro ar gyfer person, sydd ar secondiad ar sail lawnamser am gyfnod o dri mis neu ragor, heblaw i awdurdod lleol neu i gorff llywodraethu.

16. Gwariant wrth dalu person, neu wrth ddarparu i lenwi bwlch dros dro ar gyfer person, sydd wedi bod yn absennol o'r gwaith yn ddi-dor oherwydd salwch am 21 o ddiwrnodau neu ragor.

17. Gwariant, nad yw'n dod o fewn Atodlen 2, mewn perthynas â recriwtio, hyfforddi, datblygu proffesiynol parhaus, rheoli perfformiad a rheoli personél yn achos staff sy'n cael eu cyllido o wariant nad yw'n cael ei dalu o gyfrannau ysgolion o'r gyllideb.

Gwariant arall

18. Gwariant ar ddarparu hyfforddiant mewn offerynnau cerdd neu hyfforddiant corawl, naill ai i unigolion neu i grwpiau.

19. Gwariant ar gefnogi theatrau teithiol, i'r graddau nad yw gwariant o'r fath wedi ei gwmpasu gan grantiau penodol.

20. Gwariant mewn cysylltiad ag addysgu'r Gymraeg gan athrawon sydd wedi eu cyflogi i weithio heblaw mewn ysgol unigol, i'r graddau nad yw gwariant o'r fath wedi ei gwmpasu gan grantiau penodol.

(**111**) O.S. 1977/500; mae offerynnau diwygio ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.
(**112**) O.S. 1996/1513; mae offerynnau diwygio ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.
(**113**) Diwygiwyd adran 196 gan O.S. 1999/1925.
(**114**) O.S. 2006/246; mae offerynnau diwygio ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.
(**115**) Diwygiwyd adran 55 gan O.S. 2002/253 ac O.S. 2004/1771.
(**116**) 1996 p. 14, ac fe'i diwygiwyd gan Ddeddf Diwygio Amddiffyn 2014 (p. 20), adran 44(3)(a) a (4).

21. Gwariant ar ddarparu mangreoedd a chyfleusterau i ysgolion ar gyfer gweithgareddau chwaraeon a gweithgareddau awyr agored, gan gynnwys mangreoedd a ddarperir ar safle ysgol er budd y gymuned yn gyffredinol.

22. Gwariant o dan adrannau 512(**117**), 512ZA(**118**), 512ZB(**119**) neu 513(**120**) o Ddeddf 1996 sydd, mewn perthynas ag ysgolion uwchradd, yn ymwneud â darparu llaeth ac, mewn perthynas ag unrhyw ysgol arall, yn ymwneud â darparu llaeth neu brydau bwyd a lluniaeth arall.

23. Gwariant ar atgyweirio a chynnal a chadw cegin ysgol pan fo gwariant ar brydau bwyd mewn perthynas â'r ysgol o dan sylw yn cael ei ddidynnu o gyllideb ysgolion yr awdurdod lleol o dan baragraff 22.

24. Gwariant ar benderfynu cymhwystra disgybl i gael prydau ysgol am ddim.

25. Gwariant o dan adran 18 o Ddeddf 1996(**121**) wrth wneud unrhyw grant neu unrhyw daliad arall mewn cysylltiad â ffioedd neu dreuliau, o ba bynnag natur, sy'n daladwy mewn cysylltiad â phresenoldeb disgyblion mewn ysgol nad yw'n cael ei chynnal gan unrhyw awdurdod lleol.

26. Gwariant mewn cysylltiad â darparu addysg feithrin, ac eithrio pan fo darpariaeth o'r fath yn cael ei gwneud mewn ysgol a gynhelir.

27. Gwariant ar yswiriant mewn cysylltiad ag atebolrwydd sy'n codi mewn cysylltiad ag ysgolion a mangreoedd ysgolion, ac eithrio i'r graddau y mae cyrff llywodraethu yn cael cyllid ar gyfer yswiriant yn rhan o gyfrannau eu hysgolion o'r gyllideb.

28. Gwariant ar ffioedd trwydded neu danysgrifiadau a delir ar ran ysgolion.

29. Gwariant yr eir iddo wrth ymateb i adroddiad ar arolygiad ysgol o dan adran 28 o Ddeddf Addysg 2005(**122**).

30. Gwariant ar wasanaethau llyfrgell a gwasanaethau amgueddfa ar gyfer ysgolion.

31. Gwariant—

(a) y byddai addysg disgyblion mewn ysgol yn cael ei niweidio'n ddifrifol hebddo, a

(b) na fyddai'n rhesymol disgwyl i gorff llywodraethu ei dalu o gyfran yr ysgol o'r gyllideb oherwydd naill ai—

(i) ei faint a'i natur annisgwyl, neu

(ii) ei faint a'i natur anochel.

(**117**) Amnewidiwyd adran 512, fel y'i deddfwyd yn wreiddiol, gan Ddeddf Addysg 2002, adran 201(1), ac fe'i diwygiwyd gan Ddeddf Gofal Plant 2006, Atodlen 2, paragraff 24, gan Ddeddf Addysg ac Arolygiadau 2006, adran 86(2), gan Fesur Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Cymru) 2009 (mccc 3), adran 8(2), gan Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, Atodlen 5, paragraff 35, a chan O.S. 2010/1158.

(**118**) Amnewidiwyd adran 512ZA, fel y'i deddfwyd yn wreiddiol, gan Ddeddf Addysg 2002, adran 201(1), ac fe'i diwygiwyd gan Ddeddf Addysg ac Arolygiadau 2006, adran 87(1), gan Ddeddf Addysg 2011, adran 35(2), gan Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, adran 91(2), a chan O.S. 2010/1158.

(**119**) Amnewidiwyd adran 512ZB, fel y'i deddfwyd yn wreiddiol, gan Ddeddf Addysg 2002, adran 201(1), ac fe'i diwygiwyd gan Ddeddf Diwygio Lles 2007, Atodlen 3, paragraff 16(3), gan Ddeddf Tlodi Plant 2010, adran 26(1), gan Ddeddf Diwygio Lles 2012, Atodlen 2, paragraff 39, Atodlen 3, paragraff 16(3), ac Atodlen 14, Rhan 1, gan Ddeddf Plant a Theuluoedd 2014, adran 106(2), a chan O.S. 2010/1158.

(**120**) Diwygiwyd adran 513 gan O.S. 2010/1158.

(**121**) Diwygiwyd adran 18 gan O.S. 2010/1158.

(**122**) Diwygiwyd adran 28 gan Ddeddf Addysg a Sgiliau 2008 (p. 25), Atodlen 1, paragraff 27, gan Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, Atodlen 5, paragraff 22(2), gan Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022, Atodlen 4, paragraff 18(4), a chan O.S. 2005/3238 (Cy. 243), O.S. 2021/861 (Cy. 200) ac O.S. 2022/744 (Cy. 161).

32. Gwariant ar gynnydd yng nghyfran ysgol o'r gyllideb, y mae gan yr ysgol hawlogaeth i'w chael yn rhinwedd fformiwla'r awdurdod lleol neu yn sgil ailbenderfynu cyfrannau ysgolion o'r gyllideb o dan awdurdod Gweinidogion Cymru, neu wariant ar gywiro gwallau.

33. Gwariant at ddibenion nad ydynt yn dod o fewn unrhyw baragraff arall yn yr Atodlen hon ar yr amod nad yw'r gwariant yn dod i gyfanswm o fwy na 0.1% o gyllideb ysgolion yr awdurdod lleol.

34. CERA yr eir iddo at ddibenion nad ydynt yn dod o fewn unrhyw baragraff arall yn yr Atodlen hon nac yn Atodlen 2.

35. Gwariant yr eir iddo o dan adran 22 o Fesur 2011 wrth hyfforddi llywodraethwyr i'w galluogi i gyflawni eu swyddogaethau yn effeithiol, i'r graddau na ddarperir ar gyfer hyn gan grantiau penodol.

36. Gwariant yr eir iddo o dan adran 24 o Fesur 2011 mewn perthynas â hyfforddi clercod cyrff llywodraethu i'w galluogi i gyflawni eu swyddogaethau yn effeithiol.

ATODLEN 4

Rheoliad 29

Cynnwys Cynlluniau Ariannol

Y materion y cyfeirir atynt yn rheoliad 29

1. Cario ymlaen o un cyfnod cyllido i un arall wargedion a diffygion sy'n codi mewn perthynas â chyfrannau ysgolion o'r gyllideb.

2. Nodi'r holl ddosbarthau neu ddisgrifiadau o wariant sy'n ffurfio rhan o gyllideb ysgolion yr awdurdod lleol ond na fyddant yn ffurfio unrhyw ran o'r gyllideb ysgolion unigol ac a fydd, yn hytrach, yn cael eu cadw gan yr awdurdod lleol.

3. Symiau y gellir codi amdanynt yn erbyn cyfrannau ysgolion o'r gyllideb.

4. Symiau y mae ysgolion yn eu cael, y caiff eu cyrff llywodraethu eu cadw, a'r dibenion y caniateir defnyddio symiau o'r fath ar eu cyfer.

5. Gosod amodau, gan gynnwys amodau sy'n rhagnodi rheolaethau a gweithdrefnau ariannol, drwy neu o dan y cynllun ariannol, y mae rhaid i ysgolion gydymffurfio â hwy mewn perthynas â rheoli—

(a) eu cyllidebau dirprwyedig, a

(b) symiau a roddir ar gael gan yr awdurdod lleol i gyrff llywodraethu nad ydynt yn ffurfio rhan o gyllidebau dirprwyedig.

6. Y telerau y mae'r awdurdod lleol yn darparu gwasanaethau a chyfleusterau odanynt i ysgolion a gynhelir ganddo.

7. Yr awdurdod lleol yn talu llog neu log yn cael ei dalu i'r awdurdod lleol.

8. Yr adegau pryd y mae symiau sy'n hafal i gyfran yr ysgol o'r gyllideb i'w rhoi ar gael i gyrff llywodraethu a pha ran o gyfran yr ysgol o'r gyllideb sydd i'w rhoi ar gael ar bob adeg o'r fath.

9. Trosglwyddo arian rhwng penawdau cyllideb o fewn y gyllideb ddirprwyedig.

10. Yr amgylchiadau pryd y caiff yr awdurdod lleol ddirprwyo i gorff llywodraethu y pŵer i wario unrhyw ran o gyllideb addysg nad yw ar gyfer ysgolion yr awdurdod lleol,

neu ei gyllideb ysgolion, yn ychwanegol at yr amgylchiadau a nodir yn adran 49(4)(a) i (c) o Ddeddf 1998(**123**).

11. Defnyddio cyllidebau dirprwyedig a symiau a roddir ar gael gan yr awdurdod lleol i gorff llywodraethu nad ydynt yn ffurfio rhan o gyllidebau dirprwyedig.

12. Cyrff llywodraethu yn benthyca.

13. Y trefniadau bancio y caiff cyrff llywodraethu eu gwneud.

14. Datganiad o ran atebolrwydd personol llywodraethwyr mewn cysylltiad â chyfrannau ysgolion o'r gyllideb, gan roi sylw i adran 50(7) o Ddeddf 1998.

15. Datganiad o ran y lwfansau sy'n daladwy i lywodraethwyr ysgol nad oes ganddi gyllideb ddirprwyedig, yn unol â'r cynllun ariannol a wnaed gan yr awdurdod lleol at ddibenion adran 519 o Ddeddf 1996(**124**).

16. Cadw cofrestr o unrhyw fuddiannau busnes sydd gan y llywodraethwyr a'r pennaeth.

17. Darparu gwybodaeth gan y corff llywodraethu a darparu gwybodaeth iddo.

18. Cynnal rhestrau o asedau.

19. Cynlluniau ar gyfer gwariant corff llywodraethu.

20. Datganiad o ran y defnydd y mae corff llywodraethu yn bwriadu ei wneud o unrhyw warged a ddygwyd ymlaen o'r cyfnod cyllido yn union cyn y cyfnod cyllido presennol, pan fo'r gwarged hwnnw'n fwy na 5% o gyfran yr ysgol o'r gyllideb yn y cyfnod cyllido cyfredol.

21. Datganiad sy'n nodi sut y bydd yr awdurdod lleol yn monitro defnydd corff llywodraethu o'r gwarged a gynhwysir mewn unrhyw ddatganiad a wneir o dan baragraff 20.

22. Darpariaeth y caiff yr awdurdod lleol wneud y canlynol odani—

(a) cyfarwyddo corff llywodraethu ynghylch sut i wario unrhyw warged a ddygwyd ymlaen o'r cyfnod cyllido blaenorol ym mantolen yr ysgol ar gyfer cyfnod cyllido, os yw'r gwarged yn fwy na 5% o gyfran yr ysgol o'r gyllideb, a

(b) os nad yw corff llywodraethu yn cydymffurfio â chyfarwyddyd o'r fath, ei gwneud yn ofynnol i'r corff llywodraethu dalu'r cyfan neu ran o'r gwarged hwnnw i'r awdurdod lleol i'w ddefnyddio'n rhan o'i gyllideb ysgolion ar gyfer y cyfnod cyllido o dan sylw.

23.—(1) Darpariaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i gorff llywodraethu gyflwyno i'r awdurdod lleol, i'w gymeradwyo gan yr awdurdod lleol, gynllun i adennill unrhyw ddiffygion sy'n codi mewn perthynas â chyfrannau ysgolion o'r gyllideb ("cynllun adennill diffyg").

(2) Datganiad sy'n nodi, mewn perthynas â chynllun adennill diffyg drafft—

(a) erbyn pryd y mae rhaid i'r corff llywodraethu gyflwyno cynllun drafft i'r awdurdod lleol i'w gymeradwyo,

(b) manylion, gan gynnwys cyfeiriad, lle y dylai'r corff llywodraethu anfon cynllun adennill diffyg,

(c) ffurf cynllun adennill diffyg a'r materion y mae rhaid ymdrin â hwy ynddo,

---

(**123**) Diwygiwyd adran 49(4) gan Ddeddf Addysg 2002, Atodlen 21, paragraff 100(2), a chan O.S. 2010/1158.
(**124**) Diwygiwyd adran 519 gan Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998, Atodlen 30, paragraff 139, a chan O.S. 2010/1158; mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(d) cyfnod para'r cynllun adennill diffyg drafft,

(e) faint o amser y caiff yr awdurdod lleol ei gymryd i ystyried cynllun adennill diffyg drafft,

(f) y canlyniadau os na chyflwynir cynllun adennill diffyg drafft i'r awdurdod lleol,

(g) unrhyw ofynion i adolygu a diwygio'r cynllun adennill diffyg cymeradwy, ac

(h) y canlyniadau os na chydymffurfir â chynllun adennill diffyg cymeradwy.

24. Datganiad o ran trethu symiau a dalwyd gan gorff llywodraethu neu symiau y mae corff llywodraeth wedi eu cael.

25. Yswiriant.

26. Cyrff llywodraethu yn defnyddio cyllidebau dirprwyedig er mwyn bodloni dyletswyddau'r awdurdod lleol a osodir gan neu o dan Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith etc. 1974.

27. Darparu cyngor cyfreithiol i'r corff llywodraethu.

28. Cyllid ar gyfer materion amddiffyn plant.

29. Prydau ysgol.

30. Sut yr ymdrinnir â chwynion a wneir gan bersonau sy'n gweithio yn yr ysgol, neu gan lywodraethwyr ynghylch rheoli ariannol neu briodoldeb ariannol yn yr ysgol, ac i bwy y dylid gwneud cwynion o'r fath.

31. Gwariant yr eir iddo gan gorff llywodraethu wrth arfer y pŵer a roddir gan adran 27 o Ddeddf 2002(**125**) (pŵer corff llywodraethu i ddarparu cyfleusterau cymunedol etc.).

32. Cyrff llywodraethu yn darparu ffurflenni a gwybodaeth at ddibenion pensiynau athrawon.

33. Y raddfa y mae'n ofynnol i'r awdurdod lleol ei chyhoeddi o dan reoliad 21(4).

ATODLEN 5

Rheoliad 32(2)

Rhan 1 o Ddatganiad Cyllideb

RHAN 1

Cyffredinol

1. Rhaid i Ran 1 o ddatganiad cyllideb (gwybodaeth ar lefel ysgol) fod ar y ffurf a nodir yn Rhan 2 o'r Atodlen hon ac yn unol â'r nodiadau a nodir yn Rhan 3 o'r Atodlen hon.

2. Rhaid cwblhau'r fersiynau Cymraeg a Saesneg o'r ffurflen.

3. Ni chaiff maint y ffont a ddefnyddir fod yn llai na 7pt.

4.—(1) Rhaid i'r wybodaeth a ganlyn ymddangos ar frig pob Rhan o ddatganiad cyllideb—

(a) rhowch y cyfnod cyllido y mae'r datganiad cyllideb yn ymwneud ag ef yng ngholofn (a),

(**125**) Mae diwygiadau iddi ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(b) rhowch rif y fersiwn, neu'r rhif "1" os mai hon yw'r fersiwn gyntaf, yng ngholofn (b),

(c) rhowch y dyddiad y cwblhawyd y ffurflen yng ngholofn (c),

(d) rhowch enw'r awdurdod lleol yng ngholofn (d), ac

(e) rhowch gyfeirnod unedol yr awdurdod lleol yng ngholofn (e).

(2) Yn y paragraff hwn, ystyr "rhif y fersiwn" yw rhif sy'n gwahaniaethu ffurflen benodol a gyflwynir gan yr awdurdod lleol oddi wrth fersiynau cynharach o'r ffurflen a gyflwynwyd ganddo.

5. Mae'r nodiadau â rhif yn Rhan 3 o'r Atodlen hon yn cyfeirio at yr eitemau yn y tabl sy'n dwyn y rhif cyfatebol yn y ffurflen.

6. Pan na fo awdurdod lleol yn bwriadu gwneud unrhyw ddarpariaeth ariannol ar gyfer unrhyw fater a restrir yn y ffurflen, rhaid rhoi sero yn y lle priodol.

RHAN 2

Y Ffurflen

Datganiad Cyllideb Addysg Adran 52
Rhan 1 Gwybodaeth ar Lefel Ysgol

Llythrennau colofnau									
	(a)		(b)		(c)		(d)		(e)
Y Cyfnod Cyllido (Blwyddyn Ariannol):		Rhif y Fersiwn:		Y Dyddiad y Cwblhawyd y Ffurflen (Datganiad Cyllideb):		Enw'r Awdurdod Lleol:		Cyfeirnod Unedol yr Awdurdod Lleol:	

CRYNODEB O'R GYLLIDEB YSGOLION

Rhifau colofnau														
(1)	(2)	(3)	(4)	(5)	(6)	(7)	(8)	(9)	(10)	(11)	(12)	(13)	(14)	(15)
Enw'r Ysgol	Cyfeirnod yr Ysgol	Dyddiad Agor neu Gau'r Ysgol	A neu C	Nifer y Disgyblion neu Leoedd Ysgol	Cyfran o'r Gyllideb fesul Ysgol				Cyfran o'r Gyllideb fesul Disgybl/Lle Ysgol			Cyllid nad yw o'r Gyllideb Ysgolion Unigol sydd wedi ei Ddatganoli i Ysgolion £k	Amcangyfrif o'r Gyfran o'r Gyllideb ym Mlwyddyn 2 £k	Amcangyfrif o'r Gyfran o'r Gyllideb ym Mlwyddyn 3 £k
					Dirprwyad Craidd £k	Dirprwyad Disgresiynol £k	Dirprwyadau Anghenion Dysgu Ychwanegol £k	Cyfanswm y Dirprwyad £k	Dirprwyad Craidd gan gynnwys y Dirprwyad Craidd Anghenion Dysgu Ychwanegol £	Dirprwyad Disgresiynol gan gynnwys y Dirprwyad Disgresiynol Anghenion Dysgu Ychwanegol £	Cyfanswm y Dirprwyad £			
Ysgolion Meithrin a Gynhelir														
Llinell (16) Cyfanswm/cyfartaledd – ysgolion meithrin a gynhelir														
Ysgolion Cynradd														
Llinell (17) Cyfanswm/cyfartaledd – ysgolion cynradd														
Ysgolion Canol														
Llinell (18) Cyfanswm/cyfartaledd – ysgolion														

canol															
Ysgolion Uwchradd															
Llinell (19) **Cyfanswm/cyfartaledd – ysgolion uwchradd**															
Ysgolion Arbennig															
Llinell (20) **Cyfanswm/cyfartaledd – ysgolion arbennig**															
Llinell (21) **Cyfanswm/cyfartaledd – pob ysgol**															
Rhifau colofnau															
EITEMAU MEMORANDWM			**(22)**							**(23)**					
Cyllideb Ysgolion Unigol Heb ei Dyrannu		Ysgolion Meithrin a Gynhelir						**Cyllid nad yw o'r Gyllideb Ysgolion Unigol ac sydd Heb ei Ddyrannu**	Ysgolion Meithrin a Gynhelir						
		Ysgolion Cynradd							Ysgolion Cynradd						
		Ysgolion Canol							Ysgolion Canol						
		Ysgolion Uwchradd							Ysgolion Uwchradd						
		Ysgolion Arbennig							Ysgolion Arbennig						
Llinell (24)		**Cyfanswm**							**Cyfanswm**						
Llinell (25) **CYFANSWM Cyllideb Ysgolion Unigol**								**Llinell (26)** **CYFANSWM Cyllid nad yw o'r Gyllideb Ysgolion Unigol**						

RHAN 3

Nodiadau i Ran 1 o Ddatganiad Cyllideb

1. Yng ngholofn (1), rhowch enwau'r holl ysgolion a gynhelir, neu sydd i'w cynnal, gan yr awdurdod lleol yn y cyfnod cyllido yn y drefn a ganlyn—

(a) ysgolion meithrin a gynhelir;

(b) ysgolion cynradd;

(c) ysgolion canol;

(d) ysgolion uwchradd;

(e) ysgolion arbennig.

2. Gyferbyn ag enw pob ysgol a gynhelir, yng ngholofn (2), rhowch gyfeirnod yr ysgol honno.

3. Yng ngholofn (3), rhowch y dyddiad y bwriedir i'r ysgol a gynhelir gau neu agor, yn ôl y digwydd; fel arall gadewch golofn (3) yn wag.

4. Yng ngholofn (4), gyferbyn ag enw pob ysgol a gynhelir, rhowch y llythyren "C" os yw'r ysgol i gau yn ystod y cyfnod cyllido a'r llythyren "A" os yw'r ysgol i agor yn ystod y cyfnod cyllido; fel arall gadewch golofn (4) yn wag.

5.—(1) Yng ngholofn (5), gyferbyn ag enw pob ysgol a gynhelir, rhowch—

(a) nifer y disgyblion cofrestredig yn yr ysgol y mae'n ofynnol, o dan y fformiwla, ei ddefnyddio ar gyfer y penderfyniad cychwynnol ynghylch cyfran yr ysgol honno o'r gyllideb, a

(b) nifer y lleoedd ysgol sydd wedi eu neilltuo ar gyfer disgyblion mewn dosbarth meithrin neu ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol ac a gyllidir felly o dan y fformiwla.

(2) Yn achos ysgol a gynhelir a fydd ar agor am ran o'r flwyddyn yn unig, rhaid lleihau'r nifer a benderfynir yn unol ag is-baragraff (1)(a) neu (b) o'r nodyn hwn i adlewyrchu'r gyfran o'r flwyddyn y mae'r ysgol i agor amdani. Er enghraifft, os disgwylir i ysgol a gynhelir agor am 7 mis o'r cyfnod cyllido, y nifer y dylid ei ddangos yw nifer y disgyblion wedi ei luosi â 7, yna ei rannu â 12.

6.—(1) Yng ngholofn (6), gyferbyn ag enw pob ysgol a gynhelir, rhowch y swm a ddyrennir gan yr awdurdod lleol i bob ysgol o'r Dirprwyad Craidd.

(2) O ran ysgolion a gynhelir sydd ar agor am ran o'r flwyddyn yn unig, dylid dangos y gyfran wirioneddol o'r gyllideb a roddir i'r ysgol.

7.—(1) Yng ngholofn (7), gyferbyn ag enw pob ysgol a gynhelir, rhowch y swm a ddyrennir gan yr awdurdod lleol i bob ysgol o'r Dirprwyad Disgresiynol.

(2) O ran ysgolion a gynhelir sydd ar agor am ran o'r flwyddyn yn unig, dylid dangos y gyfran wirioneddol o'r gyllideb a roddir i'r ysgol.

8.—(1) Yng ngholofn (8), gyferbyn ag enw pob ysgol a gynhelir, rhowch y swm a ddyrennir gan yr awdurdod lleol i bob ysgol o'r Dirprwyadau Anghenion Dysgu Ychwanegol.

(2) O ran ysgolion a gynhelir sydd ar agor am ran o'r flwyddyn yn unig, dylid dangos y gyfran wirioneddol o'r gyllideb a roddir i'r ysgol.

9.—(1) Yng ngholofn (9), gyferbyn ag enw pob ysgol a gynhelir, rhowch gyfanswm dirprwyad yr ysgol o'r Dirprwyad Craidd, y Dirprwyad Disgresiynol a'r Dirprwyadau Anghenion Dysgu Ychwanegol, sef cyfan gyfran yr ysgol o'r gyllideb.

(2) O ran ysgolion a gynhelir sydd ar agor am ran o'r flwyddyn yn unig, dylid dangos y gyfran wirioneddol o'r gyllideb a roddir i'r ysgol.

10. Yng ngholofn (10), gyferbyn ag enw pob ysgol a gynhelir, rhowch y swm a ddyrennir gan yr awdurdod lleol fesul disgybl neu le ysgol yn yr ysgol o'r Dirprwyad Craidd yn ogystal â'r Dirprwyad Craidd Anghenion Dysgu Ychwanegol, a gyfrifir drwy rannu'r cyfanswm â nifer y disgyblion neu'r lleoedd ysgol ar gyfer yr ysgol a roddwyd yn unol â nodyn 5.

11. Yng ngholofn (11), gyferbyn ag enw pob ysgol a gynhelir, rhowch y swm a ddyrennir gan yr awdurdod lleol fesul disgybl neu le ysgol yn yr ysgol o'r Dirprwyad Disgresiynol yn ogystal â'r Dirprwyad Disgresiynol Anghenion Dysgu Ychwanegol, a gyfrifir drwy rannu'r cyfanswm â nifer y disgyblion neu'r lleoedd ysgol ar gyfer yr ysgol a roddwyd yn unol â nodyn 5.

12. Yng ngholofn (12), gyferbyn ag enw pob ysgol a gynhelir, rhowch gyfanswm y dirprwyad fesul disgybl neu le ysgol yn yr ysgol, a gyfrifir drwy rannu'r swm a roddwyd yn unol â nodyn 9 â nifer y disgyblion neu'r lleoedd ysgol ar gyfer yr ysgol a roddwyd yn unol â nodyn 5.

13. Yng ngholofn (13), gyferbyn ag enw pob ysgol a gynhelir, rhowch y cyllid nad yw o'r gyllideb ysgolion unigol sydd wedi ei ddatganoli i ysgolion sef swm y cyllid dangosol ychwanegol cynlluniedig (gan gynnwys grantiau) y bwriedir ei ddyrannu i'r ysgol nad yw'n rhan o gyfran yr ysgol o'r gyllideb.

14.—(1) Yng ngholofn (14), gyferbyn ag enw pob ysgol a gynhelir, rhowch benderfyniad amcangyfrifedig ynghylch cyfanswm cyfran yr ysgol o'r gyllideb ar gyfer blwyddyn 2 sef y cyfnod cyllido cyntaf sy'n dod yn union ar ôl y cyfnod cyllido cyfredol.

(2) O ran ysgolion a gynhelir sydd ar agor am ran o'r flwyddyn yn unig, dylid dangos penderfyniad cychwynnol ynghylch cyfran wirioneddol yr ysgol o'r gyllideb.

15.—(1) Yng ngholofn (15), gyferbyn ag enw pob ysgol a gynhelir, rhowch benderfyniad amcangyfrifedig ynghylch cyfanswm cyfran yr ysgol o'r gyllideb ar gyfer blwyddyn 3 sef yr ail gyfnod cyllido sy'n dod yn union ar ôl y cyfnod cyllido cyntaf.

(2) O ran ysgolion a gynhelir sydd ar agor am ran o'r flwyddyn yn unig, dylid dangos penderfyniad cychwynnol ynghylch cyfran wirioneddol yr ysgol o'r gyllideb.

(3) Yn y paragraff hwn, mae i "cyfnod cyllido cyntaf" yr ystyr a roddir iddo yn nodyn 14(1).

16. Yn llinell (16), ym mhob un o golofnau (5) i (9) a (13) i (15), rhowch gyfanswm y niferoedd a roddwyd ym mhob un o'r colofnau hynny mewn cysylltiad ag ysgolion meithrin a gynhelir, ac yng ngholofnau (10) i (12), rhowch gyfartaledd y niferoedd a roddwyd yn y colofnau hynny mewn cysylltiad ag ysgolion meithrin a gynhelir.

17. Yn llinell (17), ym mhob un o golofnau (5) i (9) a (13) i (15), rhowch gyfanswm y niferoedd a roddwyd ym mhob un o'r colofnau hynny mewn cysylltiad ag ysgolion cynradd, ac yng ngholofnau (10) i (12), rhowch gyfartaledd y niferoedd a roddwyd yn y colofnau hynny mewn cysylltiad ag ysgolion cynradd.

18. Yn llinell (18), ym mhob un o golofnau (5) i (9) a (13) i (15), rhowch gyfanswm y niferoedd a roddwyd ym mhob un o'r colofnau hynny mewn cysylltiad ag ysgolion canol,

ac yng ngholofnau (10) i (12), rhowch gyfartaledd y niferoedd a roddwyd yn y colofnau hynny mewn cysylltiad ag ysgolion canol.

19. Yn llinell (19), ym mhob un o golofnau (5) i (9) a (13) i (15), rhowch gyfanswm y niferoedd a roddwyd ym mhob un o'r colofnau hynny mewn cysylltiad ag ysgolion uwchradd, ac yng ngholofnau (10) i (12), rhowch gyfartaledd y niferoedd a roddwyd yn y colofnau hynny mewn cysylltiad ag ysgolion uwchradd.

20. Yn llinell (20), ym mhob un o golofnau (5) i (9) a (13) i (15), rhowch gyfanswm y niferoedd a roddwyd ym mhob un o'r colofnau hynny mewn cysylltiad ag ysgolion arbennig, ac yng ngholofnau (10) i (12), rhowch gyfartaledd y niferoedd a roddwyd yn y colofnau hynny mewn cysylltiad ag ysgolion arbennig.

21. Yn llinell (21), ym mhob un o golofnau (5) i (9) a (13) i (15), rhowch gyfanswm y niferoedd a roddwyd ym mhob un o'r colofnau hynny mewn cysylltiad â'r holl ysgolion a gynhelir, ac yng ngholofnau (10) i (12), rhowch gyfartaledd y niferoedd a roddwyd yn y colofnau hynny mewn cysylltiad â'r holl ysgolion a gynhelir.

22. Yng ngholofn (22), rhowch swm y gyllideb ysgolion unigol nad yw'n cael ei ddyrannu i ysgolion a gynhelir yng ngholofnau (9) a (12), gan roi amcangyfrif o'r rhaniad rhwng ysgolion meithrin a gynhelir, ysgolion cynradd, ysgolion canol, ysgolion uwchradd ac ysgolion arbennig.

23. Yng ngholofn (23), rhowch gyfanswm y cyllid o'r math y cyfeirir ato yn nodyn 13 ac y mae'r awdurdod lleol yn bwriadu ei ddyrannu i ysgolion a gynhelir ond nad yw'n cael ei ddyrannu ar ddechrau'r cyfnod cyllido, gan roi amcangyfrif o'r rhaniad rhwng ysgolion meithrin a gynhelir, ysgolion cynradd, ysgolion canol, ysgolion uwchradd ac ysgolion arbennig.

24. Yn llinell (24), ym mhob un o golofnau (22) a (23), rhowch gyfanswm y niferoedd a roddwyd ym mhob un o'r colofnau hynny.

25. Yn llinell (25), rhowch gyfanswm y niferoedd yn llinell (21) o golofn (9) ac yn llinell (24) o golofn (22).

26. Yn llinell (26), rhowch gyfanswm y niferoedd yn llinell (21) o golofn (13) a llinell (24) o golofn (23).

ATODLEN 6

Rheoliad 32(3)

Rhan 2 o Ddatganiad Cyllideb

RHAN 1

Cyffredinol

1. Rhaid i Ran 2 o ddatganiad cyllideb (gwybodaeth am y fformiwla) fod ar y ffurf a nodir yn Rhan 2 o'r Atodlen hon ac yn unol â'r nodiadau a nodir yn Rhan 3 o'r Atodlen hon.

2. Rhaid cwblhau'r fersiynau Cymraeg a Saesneg o'r ffurflen.

3. Ni chaiff maint y ffont a ddefnyddir fod yn llai na 7pt.

4.—(1) Rhaid i'r wybodaeth a ganlyn ymddangos ar frig pob Rhan o ddatganiad cyllideb—

(a) rhowch y cyfnod cyllido y mae'r datganiad cyllideb yn ymwneud ag ef yn llinell (a) o golofn (a),

(b) rhowch rif y fersiwn, neu'r rhif "1" os mai hon yw'r fersiwn gyntaf, yn llinell (b) o golofn (a),

(c) rhowch y dyddiad y cwblhawyd y ffurflen yn llinell (c) o golofn (a),

(d) rhowch enw'r awdurdod lleol yn llinell (d) o golofn (a),

(e) rhowch gyfeirnod unedol yr awdurdod lleol yn llinell (e) o golofn (a),

(f) rhowch enw'r ysgol a gynhelir yn llinell (f) o golofn (a),

(g) rhowch gyfeirnod yr ysgol yn llinell (g) o golofn (a), ac

(h) rhowch y math o ddirprwyad y mae'r ffurflen yn ymwneud ag ef yn llinell (h) o golofn (a), sef y Dirprwyad Craidd, y Dirprwyad Disgresiynol, y Dirprwyadau Anghenion Dysgu Ychwanegol, y Dirprwyad Craidd Anghenion Dysgu Ychwanegol, y Dirprwyad Disgresiynol Anghenion Dysgu Ychwanegol neu Gyfanswm y Dirprwyad.

(2) Yn y paragraff hwn, ystyr "rhif y fersiwn" yw rhif sy'n gwahaniaethu ffurflen benodol a gyflwynir gan yr awdurdod lleol oddi wrth fersiynau cynharach o'r ffurflen a gyflwynwyd ganddo.

5. Mae'r nodiadau â rhif yn Rhan 3 o'r Atodlen hon yn cyfeirio at yr eitemau yn y tabl sy'n dwyn y rhif cyfatebol yn y ffurflen.

6. Caiff awdurdod lleol gynnwys, ar ffurf atodiad i'r ffurflen a nodir yn Rhan 2 o'r Atodlen hon, unrhyw wybodaeth berthnasol yn ychwanegol at yr wybodaeth y mae'n ofynnol ei chynnwys yn y ffurflen.

7. Pan na fo awdurdod lleol yn bwriadu gwneud unrhyw ddarpariaeth ariannol ar gyfer unrhyw fater a restrir yn y ffurflen, rhaid rhoi sero yn y lle priodol.

8.—(1) Rhaid i awdurdod lleol, ar gyfer pob ysgol a phob math o ysgol a nodir yn is-baragraff (2), gwblhau ffurflen ar wahân ar gyfer pob un o'r cyllidebau dirprwyedig a nodir yn is-baragraff (3).

(2) Yr ysgol neu'r mathau o ysgol y cyfeirir ati neu atynt yn is-baragraff (1) yw—

(a) pob ysgol a gynhelir y mae'n ei chynnal, gan roi cyfansymiau ar gyfer yr ysgol honno yn unig,

(b) yr holl ysgolion a gynhelir y mae'n eu cynnal, gan roi cyfansymiau ar gyfer pob ysgol o'r fath,

(c) y sector ysgolion meithrin a gynhelir y mae'n ei gynnal, gan roi cyfansymiau ar gyfer pob un o'r math hwnnw o ysgol,

(d) y sector ysgolion arbennig y mae'n ei gynnal, gan roi cyfansymiau ar gyfer pob un o'r math hwnnw o ysgol,

(e) y sector ysgolion cynradd y mae'n ei gynnal, gan roi cyfansymiau ar gyfer pob un o'r math hwnnw o ysgol,

(f) y sector ysgolion canol y mae'n ei gynnal, gan roi cyfansymiau ar gyfer pob un o'r math hwnnw o ysgol, ac

(g) y sector ysgolion uwchradd y mae'n ei gynnal, gan roi cyfansymiau ar gyfer pob un o'r math hwnnw o ysgol.

(3) Y cyllidebau dirprwyedig y cyfeirir atynt yn is-baragraff (1) yw—

(a) y Dirprwyad Craidd,

(b) y Dirprwyad Disgresiynol,

(c) Dirprwyadau Anghenion Dysgu Ychwanegol,

(d) y Dirprwyad Craidd Anghenion Dysgu Ychwanegol,

(e) y Dirprwyad Disgresiynol Anghenion Dysgu Ychwanegol, ac

(f) Cyfanswm y Dirprwyad.

RHAN 2

Y Ffurflen

Datganiad Cyllideb Addysg Adran 52 Rhan 2: Ffactorau Cyllido		
		Colofn (a)
Llinell (a)	Y Cyfnod Cyllido (Blwyddyn Ariannol):	
Llinell (b)	Rhif y Fersiwn:	
Llinell (c)	Y Dyddiad y Cwblhawyd y Ffurflen (Datganiad Cyllideb):	
Llinell (d)	Enw'r Awdurdod Lleol:	
Llinell (e)	Cyfeirnod Unedol yr Awdurdod Lleol:	
Llinell (f)	Enw'r Ysgol:	
Llinell (g)	Cyfeirnod yr Ysgol:	
Llinell (h)	Dirprwyad Craidd/Dirprwyad Disgresiynol/Dirprwyadau Anghenion Dysgu Ychwanegol/Dirprwyad Craidd Anghenion Dysgu Ychwanegol/Dirprwyad Disgresiynol Anghenion Dysgu Ychwanegol/Cyfanswm y Dirprwyad:	

	Rhifau colofnau					
	(1)	(2)	(3)	(4)	(5)	(6)
	Rhif y Llinell	Disgrifiad	Gwerth	CYFANSWM		
				Nifer	£	%
Llinell (7)		Cyfanswm y Cyllid fesul Disgybl/Cyfanswm y Disgyblion				
Llinell (8)		Cyfanswm y Cyllid ar Sail Lleoedd Ysgol/Cyfanswm y Lleoedd Ysgol				
Llinell (9)		Cyfanswm y Cyllid Arall ar Sail Disgyblion				
Llinell (10)		Cyfanswm y Cyllid ar Sail Disgyblion				
Llinell (11)		Cyfanswm y Cyllid Penodol i Ysgol				
Llinell (12)		Cyfanswm yr Addasiadau i'r Gyllideb				
Llinell (13)		Cyfanswm y Gyllideb				

Nodiadau i Ran 2 o Ddatganiad Cyllideb

Cyllideb ysgolion a gynhelir unigol: ffactorau cyllido

1. Yng ngholofn (1), rhowch rifau llinellau olynol er mwyn ei gwneud yn haws nodi pob ffactor cyllido a ddisgrifir yng ngholofn (2).

2.—(1) Yng ngholofn (2), rhowch ddisgrifiad cryno o bob ffactor cyllido a ddefnyddir yn fformiwla'r awdurdod lleol.

(2) Defnyddiwch "*" fel y nod cyntaf yn y disgrifiad o bob ffactor sy'n seiliedig ar gymhwystra disgybl i gael prydau ysgol am ddim, neu breswyliad disgybl mewn perthynas â Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru.

(3) Ychwanegwch linellau yn ôl yr angen er mwyn darparu ar gyfer yr holl ffactorau a ddefnyddir.

3. Yng ngholofn (3), rhowch y gwerth fesul uned fesur ar gyfer pob ffactor.

4. Yng ngholofn (4), rhowch nifer yr unedau mesur ar gyfer pob ffactor.

5. Yng ngholofn (5), rhowch gyfanswm y cyllid a ddyrennir ar gyfer pob ffactor, sef y ffigur yng ngholofn (3) wedi ei luosi â'r ffigur yng ngholofn (4).

6. Yng ngholofn (6), rhowch, ar ffurf canran, y gyfran o gyfanswm y gyllideb sydd wedi ei rhoi yn llinell (13) ac sydd wedi ei chynrychioli gan y gwerth yng ngholofn (5).

7. Yn llinell (7) o golofn (4), rhowch nifer y disgyblion cofrestredig yn yr ysgol a gynhelir y mae'n ofynnol, o dan y fformiwla, ei ddefnyddio ar gyfer y penderfyniad cychwynnol ynghylch cyfran yr ysgol honno o'r gyllideb, ac yn llinell (7) o golofn (5), rhowch gyfanswm y cyllid a ddyrennir yn ôl y niferoedd disgyblion hynny yn unol â rheoliad 15.

8. Yn llinell (8) o golofn (4), rhowch gyfanswm nifer y lleoedd ysgol, ac yn llinell (8) o golofn (5), rhowch gyfanswm y cyllid a ddyrennir yn ôl lleoedd ysgol.

9. Yn llinell (9) o golofn (5), rhowch gyfanswm y cyllid a ddyrennir yn ôl ffactorau eraill sy'n ymwneud â chyllid ar sail disgyblion.

10. Yn llinell (10) o golofn (5), rhowch gyfanswm y cyllid ar sail disgyblion.

11. Yn llinell (11) o golofn (5), rhowch gyfanswm y cyllid a ddyrennir yn ôl ffactorau eraill sy'n benodol i'r ysgol a gynhelir.

12. Yn llinell (12) o golofn (5), rhowch unrhyw addasiadau i'r gyllideb. Er enghraifft, gallai hyn gynnwys addasiadau ôl-weithredol mewn perthynas â'r cyfnod cyllido blaenorol ac amrywiad fesul ysgol o amgylch cyfartaledd fformiwläig ar gyfer yr awdurdod lleol gyda gwerth sero net ar lefel awdurdod lleol.

13. Yn llinell (13) o golofn (5), rhowch gyfanswm y gyllideb ddirprwyedig.

© Hawlfraint y Goron 2026

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y DU gan Y Llyfrfa Cyf dan awdurdod a goruchwyliaeth Saul Nassé, Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi ac Argraffydd y Brenin ar gyfer Cymru.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

2026 No. 111

EDUCATION, WALES

The School Funding, Budget Statements and Outturn Statements (No. 2) (Wales) Regulations 2026

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Regulations)

The School Funding, Budget Statements and Outturn Statements (Wales) Regulations 2026 ("the 2026 Regulations") revoke and replace the Education (Budget Statements) (Wales) Regulations 2002, the Education (Outturn Statements) (Wales) Regulations 2003 and the School Funding (Wales) Regulations 2010 ("the 2010 Regulations") in relation to financial years that commence on or after 1 April 2027. The 2026 Regulations make provision for the funding of maintained schools in Wales for those financial years.

These Regulations revoke and remake the 2026 Regulations prior to the 2026 Regulations coming into force on 1 February 2027, with the errors in the 2026 Regulations corrected as follows—

(a) the reference to sections 24(3) and (4) and 210(7) of the Education Act 2002 in the preamble of the 2026 Regulations is incorrect and these Regulations instead refer to sections 13, 14 and 32(2) of the Education (Wales) Measure 2011,

(b) the reference to "pupil's" in regulation 21(6)(b) and regulation 21(7)(a) of the 2026 Regulations is incorrect and these Regulations instead refer to "pupils", and

(c) in the Welsh text of paragraph 31 of Schedule 2 to the 2026 Regulations the reference to "ysgolion a gynhelir" is incorrect and these Regulations instead refer to "ysgolion".

These Regulations do not remake regulation 2(2) of the 2026 Regulations. Regulation 2(2) of the 2026 Regulations made a consequential amendment to the 2010 Regulations and came into force on 1 April 2026.

Part 1 contains the introductory, revocation and interpretation provisions.

Part 2 deals with the non-schools education budget, the schools budget and the individual schools budget.

Regulation 4 and Schedule 2 set out the expenditure that constitutes the non-schools education budget. This budget relates to the expenditure on local authority functions that the local authority must retain centrally.

Regulation 5 requires the local authority to make an initial determination of the schools budget on or before 14 February immediately preceding a funding period. A “funding period” is defined in section 45(1B) of the School Standards and Framework Act 1998 (“the 1998 Act”) to mean a financial year or such other period as may be prescribed. These Regulations define “funding period” to mean a financial year within the meaning given to that term in section 579(1) of the Education Act 1996.

Regulation 6 defines the schools budget. The schools budget relates to the expenditure that is aimed at supporting schools.

